Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>27 MEDI 2021<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>27 SEPTEMBER 2021<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 12 Gorffennaf 2021
- 13 Medi, 2021 (arbennig)

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 1 2021/22** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**6** **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022/23 I 2024/25** (Tudalennau 39 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2021/22** (Tudalennau 59 - 82)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2021/22** (Tudalennau 83 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **<u>MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 1, 2021/22</u>** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **<u>DIWEDDARIAD O'R PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** (Tudalennau 105 - 114)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R.Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Gwasanaethau Digidol (GC)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Tai (NM), Prif Swyddog Arweiniol (Prosiectau Mawr – Economaidd-Gymdeithasol) RLlJ), Swyddog Cyfathrebu (GJ). |

DRAFT

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw un ddatgan diddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim materion i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.**

### 4. PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021 i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Medi, 2021 ac Ebrill, 2022 i'w ystyried ac adroddwyd mai'r unig newid oedd Eitem 9 – Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol sydd wedi'i gynnwys fel eitem newydd ar yr amserlen a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Medi, 2021.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod o Fedi, 2021 tan Ebrill, 2022 fel y'i chyflwynwyd.**

## 6. CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2020/21 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a oedd yn cynnwys y prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ynghyd â manylion balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor ac argymhellion ar gyfer eu defnyddio.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Deilydd y Portffolio Cyllid bod yr adroddiad yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2020/21 a Thaflen Falansau ddrafft hyd at 31 Mawrth, 2021. Darparwyd gwybodaeth fanwl am falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor yn ogystal ac mae'r adroddiad yn nodi sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, ar y lefel angenrheidiol i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol ac mae'n cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebir gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'u hadolygu dros y misoedd nesaf. Nid yw'r ffigyrau a gyflwynwyd wedi cael eu harchwilio eto a gallant newid oherwydd y broses archwilio.

Bu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddogion 151 gynghori bod y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) drafft yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol a'i fod yn cynnwys costau na chodir Treth Cyngor amdanynt sydd yn egluro'r ffigwr o £24.231m. Mae'r costau sydd yn cynnwys costau dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â'r balansau, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, balans y cyfrif CRT a balansau ysgolion. O ganlyniad, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym Mehefin, 2021.

Roedd Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yn £11.593m, sydd yn cyfateb i 7.86% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi pennu isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol a byddai hyn yn cyfateb i £7.37m. O'r herwydd, mae Balans y Gronfa Gyffredinol £4.223m yn uwch na'r lleiafswm. Fel arfer, byddai'r Swyddog 151 yn argymell cynnal y lefelau hyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, fodd bynnag yng ngoleuni'r ansicrwydd ynglŷn ag effaith y pandemig ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn 2021/22; parhad y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru neu fel arall ac effaith y cyfyngiadau parhaus a'r cyfyngiadau cadw pellter ar allu'r Cyngor i gynhyrchu incwm drwy wasanaethau penodol, ystyrir ei bod yn synhwyrol cynyddu lleiafswm balans y gronfa gyffredinol yn 2021/22 ac efallai yn 2022/23 hyd nes bydd effeithiau'r pandemig yn fwy eglur. Ym marn broffesiynol y Swyddog 151 byddai lleiafswm o £9m (6.1% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22) yn ddigonol i liniaru'r risgiau hyn.

Cyn y pandemig, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo mewn egwyddor i drosglwyddo cyfran o'r balansau cyffredinol i greu cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwasanaethau. Uchafswm y
gronfa wrth gefn ar gyfer pob gwasanaeth fyddai 2.5% o gyllideb refeniw net y Gwasanaeth neu £75,000, pa un bynnag yw'r uchaf, a byddai'r cyfraniad blynyddol i gronfa wrth gefn y gwasanaeth neu o'r gronfa yn gysylltiedig â pherfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn h.y. os yw Gwasanaeth yn tanwario yn ystod y flwyddyn yna caniateir iddynt gadw'r tanwariant hyd at lefel y cap a defnyddio'r arian ar gyfer prosiectau gwasanaeth penodol a byddai unrhyw orwariant, ac eithrio gorwariant  sydd yn deillio o gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau,  yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y Gwasanaeth. Ar sail yr alldro 2020/21 a gweithredu'r cap ar lefel cronfeydd wrth gefn, byddai cronfa wrth gefn pob gwasanaeth fel ac yr amlinellir yn Nhabl 3 yn yr adroddiad (ac felly £1.376m fyddai cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwasanaethau) a byddant yn cael eu defnyddio at y dibenion a argymhellir ym mharagraff 5.6 yn yr adroddiad. Ar ôl ystyried yr angen i gynnal lefel sylfaenol Balsns y Gronfa Gyffredinol ar £9m a defnyddio £1.376m fel cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwasanaethau, byddai hyn yn gadael £1.217m i'w ryddhau ar gyfer prosiectau unwaith ac am byth – gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ryddhau'r swm hwn i gyllido prosiectau penodol.

Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posibl yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Dangosir y cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn 2020/21 yn Nhabl 4 a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith roi cymeradwyaeth ffurfiol i greu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn sydd werth cyfanswm o £5,181,646. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhestr lawn o'r holl Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig ond maent yn cael eu crynhoi o dan y gwahanol gategorïau yn Nhabl 5 yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Deilydd y Portffolio Cyllid ei fod yn meddwl ei bod hi'n bwysig amlygu hefyd er bod llai o bobl yn mynd i'r ysbyty a llai o farwolaethau, nad ydi Covid 19 wedi diflannu a bod ei effaith i'w weld o hyd. Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod ansicr i'r dyfodol yn enwedig o safbwynt ariannol yn cynnwys beth fydd y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23; a fydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cymorth ariannol mewn perthynas â Covid ac os felly am ba hyd a hefyd pa un ai a fydd lefel y dyfarniad cyflog i staff yn uwch na'r swm a neilltuwyd yn y gyllideb.  Hefyd, bydd gan y Cyngor gostau cronnus o ganlyniad i waith cynnal a chadw cynyddol ar ei ffyrdd ac yn ei ysgolion, ei ganolfannau hamdden a'i lyfrgelloedd.  Dyma rai o'r heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor ac y dylai'r cyhoedd fod yn ymwybodol ohonynt.  Wrth gynnig yr argymhellion, dywedodd y Deilydd Portffolio ei fod yn cynnig newid geiriad argymhelliad rhif 6 i gynnwys y geiriau "mewn egwyddor".

Bu i Aelodau'r Pwyllgor gwaith gydnabod yr ansicrwydd a'r risgiau i'r dyfodol a chytuno o'r herwydd mai priodol fyddai defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus a chadw digon o gronfeydd wrth gefn i sicrhau y gall y Cyngor ddelio â'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu. Holwyd ynglŷn ag effaith y pandemig ar gyfnodau adennill dyledion. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 bod cyfnodau adennill dyledion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac er nad oedd yn gallu darparu ffigurau pendant gan nad oedd yr wybodaeth wrth law, cadarnhaodd bod ôl-ddyledion Treth y Cyngor wedi cynyddu i £3.8m wrth i fwy o bobl gymryd mwy o amser i dalu.  Fe wnaeth y Cyngor ohirio'r ddau randaliad cyntaf yn 2020/21 felly nid yw'r cynnydd mewn ôl-ddyledion yn annisgwyl nac yn unigryw i Ynys Môn gan fod pob cyngor yng Nghymru wedi adrodd eu bod mewn sefyllfa debyg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod casgliadau Treth Cyngor fel risg posib ac mae wedi darparu £768,625 i Ynys Môn i ddelio â'r cynnydd a ragwelir yn lefel y ddyled Treth Cyngor

ac mae’n bosib y bydd yn rhaid dileu’r ddyled. Cedwir yr arian mewn cronfa wrth gefn a bydd yn cael ei ryddhau i’r cyfrif refeniw yn ôl yr angen i liniaru effaith y golled hon mewn incwm Treth Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi’r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi’r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chymeradwyo creu’r cronfeydd wrth gefn a nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad yn gwneud cyfanswm o £5,181,646.**
- **Nodi’r sefyllfa o ran balansau ysgolion.**
- **Cymeradwyo cynyddu isafswm Balans y Gronfa Gyffredinol i £9m. Adolygir y swm eto wrth osod cyllideb refeniw 2022/23.**
- **Cymeradwyo creu Cronfeydd Gwasanaeth gwerth cyfanswm o £1.376m yn unol â Thabl 3, Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Awdurdodi mewn egwyddor, defnyddio hyd at £3.471m (£1.217m o falans y Gronfa Gyffredinol a £2.254m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig nad ymrwymwyd) i gyllido prosiectau penodol sydd wedi’u cynllunio i gwrdd â’r risgiau a’r heriau sy’n wynebu’r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r holl brosiectau newydd cyn iddynt gychwyn.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 i’w ystyried.

Adroddodd y Cynghorydd Llinos Medi, Cadeirydd a Deilydd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, bod gofyniad statudol ar Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i adrodd i’r Cyngor yn flynyddol ar ddarpariaeth a pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn honno. Mae’r adroddiad yn rhoi trosolwg o’r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn ogystal ag amlinellu’r ffocws ar gyfer gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Er mai adroddiad y Cyfarwyddwr yw hwn fe ddylai’r Cyngor feddiannu’r adroddiad ar y cyd gan ei fod yn adlewyrchu’r gwaith caled a’r llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol at yr heriau digynsail a wynebwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020/21 o ganlyniad i’r pandemig Covid ac at ymdrechion staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd eu cefnogi gan gydweithwyr mewnol y Cyngor a sefydliadau partner allanol i sicrhau bod pobl Ynys Môn yn aros yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr un modd, mae gofalwyr maeth yr Awdurdod wedi gweithio’n galed iawn i wneud yn siŵr bod y plant sydd dan eu gofal yn ddiogel ac mae’n rhaid diolch iddynt am eu hymrwymiad gwerthfawr. Yn ystod y pandemig Covid 19, mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gwrdd â’u dyletswyddau statudol ac wedi gweithio’n agos â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), y Bwrdd Iechyd a sefydliadau partner eraill ac roedd y Gwasanaeth Plant ac Oedolion yn destun arolwg sicrwydd gan CIW a gafodd adborth cadarnhaol. Fe wnaeth y CIW hefyd ymweld â dau gartref grŵp bach yn ystod y flwyddyn ac roedd yr adborth yn dilyn yr ymweliadau hyn hefyd yn galonogol. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn rhan o drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol i wneud yn siŵr bod gan ddinasyddion Ynys Môn lais ynglŷn â phenderfyniadau sy’n effeithio arnynt hwy. Mae’r pandemig wedi arwain at newidiadau i drefniadau gweithio drwy gynnal sesiynau cyswllt a rhyngweithio ar-lein a chynnal cyfarfodydd o bell; fodd bynnag mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn bob amser yn

chwilio am gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol er mwyn ymateb yn well i anghenion pobl wrth iddynt newid.

Wrth amlygu'r pwyntiau allweddol o ran y Gwasanaeth Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol at y newid a fu tuag at sianeli digidol er enghraifft y neuaddau pentref rhithiol a gafodd eu sefydlu; yr eiddo a brynwyd yng nghanol tref Llangefni i ddarparu hwb ar gyfer Menter Môn ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu sydd ymysg dim ond un o'r enghreifftiau o gydweithio sydd wedi bod yn bwysig iawn yn ystod 2020/21 wrth ymateb i'r pandemig; y gwaith gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu i adnabod plant bregus a threfnu darpariaeth briodol, ac at gymeradwyo 9 aelwyd maethu prif lif a 14 aelwyd person cysylltiedig (teulu neu ffrindiau) yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi blas ar y math o weithgareddau amrywiol a gyflawnwyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2020/21. Er gwaetha'r pandemig Covid 19 a'r heriau ariannol cynyddol, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn ogystal.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf ac adroddodd y Rheolwr Sgriwtini ar sylwadau'r Pwyllgor. Wrth ystyried yr adroddiad nododd y Pwyllgor bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn oherwydd Covid 19 ond er hynny mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal ei holl waith statudol ac wedi gweithio i ddatblygu gwasanaethau yn ogystal. Clywodd y Pwyllgor am effaith y gwaith partneriaeth effeithiol wrth ymateb i Covid 19 ac wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol; gan nodi'n benodol y cydweithio a fu rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Dysgu. Trafododd y Pwyllgor y cynnydd yn y galw am gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a all arwain at bwysau ariannol ychwanegol. Cyfeiriwyd yn benodol at yr ansicrwydd ynglŷn â'r grantiau gan Lywodraeth Cymru megis y Gronfa Gofal Integredig. Bu i'r Pwyllgor gydnabod cyfraniad staff ar draws swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y pandemig a mynegi'i ddiolch am eu hymdrechion. Ar ôl ystyried yr adroddiad roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon ei fod yn adlewyrchiad teg o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 20201/21 a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella, a phenderfynodd argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Bu i aelodau'r Pwyllgor Gwaith ategu eu diolch i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith wrth ymateb i heriau'r flwyddyn anodd a fu ac yn benodol o ran cynnal gwasanaethau statudol drwy gydol y cyfnod hwn. Cydnabuwyd y cynnydd sylweddol a waned gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf ac yn benodol y cartrefi grwp bach a llwyddiant yr ymgyrch i recriwtio gofalwyr maeth a'r buddion i'r plant sydd dan ofal yr Awdurdod. Mewn perthynas â gofal maeth a mabwysiadu holwyd ynglŷn ag effaith y pandemig ar fabwysiadu a p'un ai a oedd unrhyw ofalwyr maeth wedi gadael neu dynnu'n ôl o'r broses cymeradwyo gofalwyr maeth. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol bod mwyafrif y gofalwyr maeth yn dal i faethu a bod y rhai sydd wedi gadael wedi gwneud hynny am resymau penodol. Mae gofalwyr maeth prif lif (cyffredinol), rheiny heb gyswllt teuluol â'r plant y maent yn eu maethu, yn dueddol o aros yn ofalwyr maeth ac mae gan yr Awdurdod berthynas agos â hwy; er bod rhai gofalwyr maeth yn dewis ymddeol mae nifer yn dewis parhau i fod yn ofalwyr maeth ymhell wedi'r oedran ymddeol arferol. Mewn perthynas â mabwysiadu er bod rhai achosion wedi'u gohirio mae'r broses fabwysiadu wedi parhau yn ystod y pandemig gan fod gwrandawiadau llys wedi cael eu cynnal ar-lein; cafwyd adborth cadarnhaol gan y llysoedd ynglŷn â'r modd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb ac addasu. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n dda gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor yn ystod achosion llys. Mae gwaith ar y gweill yn genedlaethol i gasglu barn am y modd y mae'r prosesau hyn wedi gweithredu yn ystod y pandemig.

Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben drwy ddatgan bod gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol yn haeddu cydnabyddiaeth gyhoeddus am eu gwaith a'u cyfraniad yn

ystod y  pandemig a bod y Pwyllgor Gwaith yn gwerthfawrogi popeth y maent wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr fel adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2020/21.**

## 8. NEWID I'R CYFANSODDIAD: HAWLIAU DIRPRWYOL – DATBLYGIADAU O ARWYDDOCAD CENEDLAETHOL A BUDDION CYMUNEDOL ANSTATUDOL

Darparwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'w ystyried i geisio cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith dros newid y Cyfansoddiad.

Adroddodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Deilydd y Portffolio Prosiectau Mawr, bod y newidiadau arfaethedig y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith eu cefnogi mewn perthynas â dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a datblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig. Hefyd, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo dirprwyo pwerau i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â negodi a chymeradwyo buddion cymunedol anstatudol ar gyfer unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Cynghorodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bod angen newid y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r fframwaith statudol cyfredol yng Nghymru sydd bellach yn cynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gorchmynion Datblygu Arbennig. Bydd y newidiadau'n galluogi'r Cyngor i ymateb yn effeithiol a chadarn i brosesau ymgysylltu o'r fath sydd fel arfer yn destun amserlenni a therfynau amser llym. Bydd y newidiadau hefyd yn cefnogi'r broses gyfathrebu bresennol  fel y gall y Cyngor sicrhau bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelodau Etholedig yn cael eu diweddaru ynglŷn â materion perthnasol a hynt datblygiadau o'r fath.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro bod yr adroddiad yn adlewyrchu cyfraniad y Swyddog Monitro ynglŷn â'r mater hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell bod y Cyngor Llawn fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.**
- **Argymell bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig (e.e. Rheoli Ffiniau) o dan Adran 59 (3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod dros negodi'r holl fuddion cymunedol anstatudol a phob penderfyniad sy'n berthnasol i drafodaethau o'r fath, yn gysylltiedig â, neu'n deillio o ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.**

- **Argymell bod adran 3.5.3 yn y Cyfansoddiad yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dirprwyaethau uchod.**

## 9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd.**

## 10. TRAWSNEWID SIANELI DIGIDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn amlinellu'r prosiect arfaethedig i drawsnewid sianeli digidol y Cyngor, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Deilydd y Portffolio Busnes Corfforaethol bod y prosiect yn rhan o ymdrechion parhaus y Cyngor i'r wella gwasanaethau y mae'n eu darparu i ddinasyddion Ynys Môn yn cynnwys y rheiny a ddarperir drwy dechnoleg ddigidol. Mae'r pandemig Covid19 wedi dangos gwerth technoleg ddigidol o ran cynnal gwasanaethau ac o ran cadw dulliau cyfathrebu ar agor; ac er mwyn parhau â'r gwaith cadarnhaol mae'n rhaid buddsoddi yn systemau'r Cyngor a dyna'r rheswm dros y cynnig.

Cytunodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid bod y prosiect yn hanfodol os ydi'r Cyngor am wneud cynnydd o ran gwella ei siwrnai ddigidol ac er mwyn sicrhau gwell profiad i staff a chwsmeriaid fel ei gilydd o ran eu rhyngweithiadau digidol â'r Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 bod goblygiadau ariannol ynghlwm â chymeradwyo'r prosiect o ran y gwariant cyfalaf cychwynnol a'r ymrwymiadau refeniw parhaus wedi hynny a sut y gellid cwrdd â'r rhain.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Deilydd y Portffolio Cyllid bod rhaid buddsoddi mewn systemau os ydi'r Cyngor am gyflawni ei ymrwymiad i barhau i wella gwasanaeth cwsmer.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ac ar lafar yn ystod y cyfarfod, fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gefnogi'r cynnig.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a bwrw ymlaen yn unol â hynny.**

DRAFT

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn rhithwir ar 13 Medi, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled M. Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd –**

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

### 3. MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGEFNI – AAS/ABA AR GYFER YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG

Cyflwynodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ymgorffori'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) ar gyfer sicrhau 65% o'r cyllid o dan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ar gyfer bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.

Rhoddodd y Cynghorydd R. Meirion Jones grynodeb o'r cefndir hyd yma. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynghylch dyfodol Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020 ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr 2020. Cyflwynwyd yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2020, ac ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai fwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen, sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i dderbyn disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig ar 17 Rhagfyr 2020.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod datblygu'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi pwynt penodol yn y broses o gwblhau'r broses foderneiddio ysgolion yn y rhan hon o Langefni. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr 2020 i fwrw ymlaen i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i dderbyn disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn, cyhoeddwyd rhybudd statudol i'r perwyl hwnnw. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi'r buddsoddiad disgwyliedig yn Ysgol y Graig ar ran Llywodraeth Cymru, a fydd yn darparu 65% o gost y prosiect, ac ar ran y Cyngor a fydd yn darparu'r 35% arall. Gwneir buddsoddiad y Cyngor drwy gyfuniad o fenthyca digymorth, derbyniadau cyfalaf a chyllid gan ddatblygwyr sy'n datblygu tai yn nalgylch Ysgol y Graig. Mae'r Achos Busnes hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r opsiynau amgen ar gyfer cyflawni'r amcanion buddsoddi yn unol â methodoleg Achos Busnes Llywodraeth Cymru. Nododd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y bydd y prosiect, yn ogystal â chyflawni buddiannau addysgol holl bwysig, yn diddymu'r gwariant presennol a rhagamcanol ar gynnal a chadw yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cyfrannu at arbedion refeniw.

Bydd dau o banelau Llywodraeth Cymru yn craffu ar yr AAS/ABA ac yn eu herio – sef cyfarfod y Grŵp Craffu Achos Busnes ar 16 Medi 2021 a chyfarfod Panel Buddsoddi'r Rhaglen ar 14 Hydref 2021. Wedi hynny, cyflwynir yr Achos Busnes Llawn i'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Swyddogion, ac yn arbennig staff y Gwasanaeth Trawsnewid, am y gwaith a wnaed i gynhyrchu dogfen mor fanwl a nodwyd y bu'r mater hwn dan ystyriaeth ers cryn amser. Wrth drafod yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith eglurhad ar ddau bwynt, un yn ymwneud â lleoedd i ddisgyblion a'r llall ynghylch amserlen cyfarfodydd panelau Llywodraeth Cymru ac roedd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch y materion hyn.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant bod Cadeirydd y Cyngor, ar 3 Medi 2021, wedi cytuno i gais a gyflwynwyd iddo ar 1 Medi 2021, sef, pe byddai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo yna dylai'r penderfyniadau yn deillio ohonynt gael eu heithrio o'r broses galw i mewn i sgriwtini oherwydd gofynion amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried y mater.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) ar gyfer y bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r AAS/ ABA i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r**

DRAFT

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, i ddiwygio'r AAS/ABA os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau perthnasol (yn nhermau polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd partïon).**

- **Neilltuo cyllid gan ddatblygwyr datblygiadau Tai o fewn dalgylch Ysgol y Graig i gyfrannu at gost y prosiect.**
- **Gyda chytundeb ymlaen llaw Cadeirydd y Cyngor, eithrio hawl Sgriwtini i alw'r penderfyniad i mewn gan y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol mewn cyfarfod ar 16 Medi 2021. Byddai unrhyw oedi o ran dyrannu cyllid yn niweidiol i ba mor gyflym y gellid rhoi'r prosiect ar waith.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Medi 2021 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752108<br>JHuwJones@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2021 – Mai 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2021 – Mai 2022. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**
**Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022**

Diweddarwyd 14 Medi 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 17

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hydref 2021** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| 2 | **Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail-gartrefi** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| 3 | **Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol**<br>Cymeradwyo Strategaeth ddiwygiedig | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| 4 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2020/21** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Hydref 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2021 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Erlyniad Difrod Ffyrdd** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| | | | | **Tachwedd 2021** | | | |
| 6 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>28 Hydref 2021<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Tachwedd 2021<br>Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru. | |
| | | | | | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

Tudalen 18

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 9 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Sail y Dreth Gyngor 2022/23**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2022/23 | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 13 | **Safle Peboc** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| | | | | **Rhagfyr 2021** | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 15 | **Cynllun Rheoli AHNE 2021-2025** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | Cyngor Llawn<br><br>22 Chwefror 2022 |

Tudalen 20

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
**Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022**

Diweddarwyd 14 Medi 2021

Tudalen 21

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladdoedd ar gyfer Porthladd Caergybi** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 17 | **Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau Priffyrdd** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 18 | **Her Tai: Ymateb CSYM i'r Sefyllfa Tai Lleol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 19 | **Strategaeth Dai Lleol 2022-2027** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | Cyngor Llawn<br><br>22 Chwefror 2022 |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2022** | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |
| | | | | **Chwefror 2022** – Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru | | | |
| 21 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 24 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | Cyngor<br>22 Chwefror 2022 |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2022** | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 28 | **Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022<br>I'w gadarnhau | |
| 29 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol<br>15 Chwefror 2022<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Hydref 2021 – Mai 2022

Diweddarwyd 14 Medi 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2022** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2022 | |
| **Mai 2022** | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2022 | |

Tudalen 25

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | PWYLLGOR GWAITH |
| **Dyddiad:** | 27 MEDI 2021 |
| **Pwnc / Testun:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2021/22) |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| **1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Caiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Ch1 yn sgil effaith y pandemig.<br><br>**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.<br><br>**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.<br><br>*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –*<br><br>1.3.1. Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a chadw llygaid barcud ar y dangosyddion a effeithir arnynt gan bandemig y coronafeirws ar hyn o bryd<br><br>1.3.2. Tynnu dangosydd rhif 8 – canran y busnesau risg uchel a arolygwyd dan raglen a gynlluniwyd ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – oddi ar y cerdyn sgorio ar gyfer eleni oherwydd y pandemig Covid-19 ac yn unol â'r disgwyliadau yng nghynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.<br><br>**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. |
| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Amh. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 14/9. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 1 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2020/21 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2021 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2021/22)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod ar y cyd â'n Dogfen Gyflawni Flynyddol.

1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4 Cytunwyd ar y dangosyddion sydd yn y cerdyn sgorio eleni yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ar gyfer yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Reolwyr ar 13eg Gorffennaf 2021. Hwn yw'r cerdyn sgorio blynyddol olaf i gael ei gytuno ar gyfer y Cyngor etholedig hwn cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

1.5 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3 Ailgychwynnodd y gwaith o gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol Mesurau Atebolrwydd Perfformiad eleni yn dilyn eu canslo'r llynedd oherwydd y

pandemig Covid-19. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r Mesurau Atebolrwydd Perfformiad ar gael eto er mwyn cynorthwyo'r broses o osod targedau ar gyfer eleni. Felly cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a hefyd yn seiliedig ar sut yr effeithiwyd arnynt oherwydd y pandemig Covid-19.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (75%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac fe'i dadansoddir i sicrhau gwelliant. Ar gyfer eleni cytunwyd ar darged heriol o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn dilyn colli 6.68 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn 2020/21.

3.3 Ar ddiwedd Ch1 mae'r Cyngor yn FELYN yn erbyn ei darged gyda 2.23 diwrnod yn cael ei golli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod yn erbyn targed o 2.1 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Mae'r perfformiad hwn bron iawn yn union yr un fath â'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn ystod Ch1 2019/20 lle collwyd 2.24 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.

3.4 Mae ein strategaeth ddigidol wedi bod yn llwyddiannus iawn drwy gydol y pandemig. Datblygwyd nifer o'n sianeli digidol yn cynnwys y defnydd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ein Gwasanaethau. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd cyfryngau cymdeithasol fel offeryn cyfathrebu ar gyfer rhannu gwybodaeth â thrigolion ac ymwelwyr wrth geisio dylanwadu ar ymddygiad yn ystod yr amser hwn.

3.5 Mae'r cyfrifon a reolir o fewn ein Gwasanaethau wedi helpu i gyrraedd pobl na fyddai o bosibl wedi dilyn prif gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn. Eleni, byddwn yn cynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu harwain gan Wasanaethau yn nangosydd perfformiad 14 o dan y pennawd Gwasanaeth Cwsmer, gan nodi nifer y 'dilynwyr' sy'n dilyn Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn.

3.6 Bydd y dilynwyr ychwanegol yn dod o gyfrifon yn cynnwys:

- Gwasanaeth Ieuenctid Môn,
- Teulu Môn,
- Archifau Ynys Môn,
- Môn Actif,
- Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff,
- Croeso Môn,
- Oriel Môn,
- Swyddi Môn Jobs,

- ac eraill

3.7 Yn dilyn adborth gan yr Aelodau Etholedig, byddwn yn datblygu system i fesur pa mor fodlon ydi cwsmeriaid â gwasanaeth teleffon y Cyngor. Cychwynnwyd ar y gwaith o ddatblygu system a fydd yn rhoi'r dewis i gwsmeriaid gymryd rhan mewn arolwg boddhad cwsmer ar ôl i swyddogion ddelio â'u galwad gychwynnol. Y gobaith yw y bydd y system newydd ar waith erbyn adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3.

3.8 Ar hyn o bryd nid oes achos i bryderu o ran yr is-bennawd siarter gwasanaeth cwsmer gan fod y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau ar y cyfan. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwaith pellach fel y nodwyd uchod yn 3.7 i weithredu dangosyddion boddhad cwsmeriaid ychwanegol fyddai'n cael i'w cynnwys yn adroddiad Ch3. Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn erbyn targed yw dangosydd 04b – cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion cyn pen 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) gyda pherfformiad o 50% yn erbyn targed o 80%. Er gwaetha'r perfformiad hwn mae'n galonogol bod 13 o'r 14 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter hwn wedi cael eu trafod â'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod a bod estyniad eisoes wedi'i gytuno yn achos 5 o'r 7 (71%) ymateb hwyr.

3.9 Mae'r adain rheolaeth ariannol yn rhagweld ar hyn o bryd ar ddiwedd y chwarter cyntaf y disgwylir y bydd £2.540 miliwn o danwariant yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2022. Disgwylir i gyllidebau'r gwasanaethau danwario £1.286 miliwn a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol hefyd yn tanwario £0.675m. Disgwylir tangyflawniad o £0.039 miliwn ar y Dreth Gyngor safonol hefyd. Rhagwelir gwarged incwm o £0.668 miliwn ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion o dan bwysau o ganlyniad i'r cynnydd mewn galw a throsglwyddiad lleoliadau costus gan y Gwasanaethau Oedolion. Mae'n batrwm arferol bod y sefyllfa alldro derfynol yn well na'r amcan chwarter cyntaf, fodd bynnag, os yw'r gorwario rhagamcanol yn digwydd byddai'n cael ei ariannu ymhellach gan falansau cyffredinol y Cyngor, a fyddai'n cynyddu i £9.961 Miliwn.

3.10 Mae angen gwaith pellach i fodelu'r effaith a bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, cyn dechrau ar broses y gyllideb ar gyfer 2022/23.

3.11 Mae'r tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £12.619m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

3.12 Mae'r canlyniadau a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Mae Covid-19 yn parhau i gael effaith ar gynlluniau cyfalaf a chyflymder y gwaith, a hynny am nifer o resymau, ac yn barod disgwylir y bydd llithriad mewn nifer o'r cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu

disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £0.852m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

3.13 Mae rhagor o wybodaeth ar reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch1' a fydd yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27ain Medi.

3.14 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol drwy ddadansoddi cardiau sgorio bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid, yn cael eu cyflawni yn erbyn ei ddisgwyliadau i safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan yr Aelodau. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y dangosyddion, o bersbectif rheoli perfformiad, hefyd yn arddangos perfformiad boddhaol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Ch1 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (85%) y dangosyddion perfformiad yn perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Nodwn fodd bynnag bod pedwar dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n GOCH neu AMBR ar y Cerdyn Sgorio.

4.2 Ar ddiwedd Ch1 mae perfformiad yn erbyn ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda gyda dim ond un dangosydd yn erbyn yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.2.1 Dangosydd 8 – Canran y busnesau risg uchel a arolygwyd dan raglen a gynlluniwyd ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 19% yn erbyn targed o 45% ond sy'n welliant ar y 0% a gwblhawyd yn ystod Ch1 2020/21.

Effeithiwyd ar y gwaith hwn o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, gyda dim ond 31 o'r 163 o'r arolygiadau a gynlluniwyd yn cael eu cynnal yn ystod Ch1. Roedd hyn yn bennaf oherwydd adleoli staff mewn ymateb i'r pandemig a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef blaenoriaethu busnesau newydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Dilynwyd y canllawiau hyn yn llawn. Yn y cyswllt hwn, mae'n galonogol nodi bod pob busnes newydd wedi cael ei arolygu yn ystod Ch1. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion newydd i flaenoriaethu busnesau newydd yn cyd-fynd â gofynion y dangosydd hwn ac o'r herwydd mae'r perfformiad gwirioneddol a gyflwynir anghywir. Mae Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu na fydd disgwyliad i gwblhau'r arolygon a gynlluniwyd tan 2022/23. Hyd yma, ni dderbyniwyd cadarnhad ynghylch sut bydd arolygiadau yn cael eu blaenoriaethu yn genedlaethol yn dilyn y pandemig ac felly, o ganlyniad i hyn **argymhellir bod y dangosydd hwn yn cael ei dynnu oddi ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer y flwyddyn 2021/22 a'i fonitro'n fewnol.**

4.3 Mae perfformiad yn erbyn yr ail amcan llesiant, **Amcan 2**, lle'r ydym yn cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor

annibynnol â phosib yn dangos perfformiad da unwaith yn rhagor. Dim ond un dangosydd o'r 15 a gafodd eu monitro yn ystod Ch1 (7%) sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

4.3.1 Dangosydd 17 – Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach – sydd yn AMBR gyda pherfformiad o 56.58% yn erbyn targed o 62%. Mae hyn yn is na'r 60.76% a welwyd yn Ch1 2020/21 a'r 61.8% a welwyd yn Ch1 2019/20.

Ar hyn o bryd rydym yn gweld cynnydd yn nifer y cleientiaid sydd ag anghenion cymorth cymhleth neu uwch sy'n penderfynu aros yn y cartref mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae hyn yn cynyddu'r niferoedd a'r galw am ofal a chymorth parhaus gennym ni. Bydd hyn yn cael effaith ar y raddfa ail-alluogi ar gyfer gofal parhaus wrth symud ymlaen gan y bydd achosion mwy cymhleth yn aros yn eu cymunedau.

Bu'n rhaid i'r gwasanaeth newid ei arfer o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac mae Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio 7 diwrnod yr wythnos ym Mhenrhos Stanley er mwyn cynorthwyo llif y gollyngiadau o Ysbyty Gwynedd. Gwnaed y newid hwn mewn ymarfer mewn partneriaeth â'n Cydweithwyr Iechyd.

**Cwblheir dadansoddiad pellach yn Ch2 i weld pam fod y galw wedi cynyddu i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol ac i sicrhau bod y lefelau cymorth angenrheidiol yn cael eu cynnig yn unol â'r disgwyliadau.**

4.4 Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion i fonitro'r trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol wedi bod yn dda ar y cyfan gyda 71% yn uwch na'r targed. Mae'r 2 ddangosydd sydd wedi tanberfformio yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.4.1 Dangosydd 32 – Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 64.55% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y chwarter. Mae'r perfformiad hwn yn is na'r 67.07% a welwyd yn Ch1 2020/21 a'r 72.79% a welwyd yn Ch1 2019/20.

Mae nifer o resymau dros y gostyngiad hwn mewn perfformiad o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm o hyd yw'r pandemig Covid-19 a'r ffaith bod llai'n defnyddio'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig a'r cynnydd mewn gwastraff o finiau du domestig oherwydd bod mwy o bobl yn gweithio o'r cartref. Roedd y rhesymau eraill yn cynnwys cael trafferth dod o hyd i allfeydd ar gyfer ailgylchu deunyddiau yn cynnwys carpedi, coed a matresi sydd hefyd wedi bod yn achos pryder i Gynghorau eraill yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn y tâl newydd am wasanaeth Gwastraff Gwyrdd a gyflwynwyd yn Ebrill 2021, mae llai o dunelli o ddeunyddiau ailgylchu, ac felly llai i'w gompostio – mai rhai preswylwyr yn rhoi'r gwastraff gardd hwn yn y bin du. Mae hyn yn amlwg o'r 2,456 o dunelli a gasglwyd yn Ch1 2020/21 a'r 1,863 o dunelli ar ddiwedd Ch1 2021/22.

Nodwyd y gostyngiad hwn fel risg pan gytunwyd i godi tâl am gasglu gwastraff gardd yn Ionawr 2020 -

*"Er y buddion ariannol sylweddol posibl mae risgiau ynghlwm â chodi tâl am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd, yn enwedig o ran y gostyngiad tebygol mewn lefelau ailgylchu blynyddol a all gynyddu'r risg o beidio â chyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70%, gan arwain at ddirwyon gan Lywodraeth Cymru."*

**I liniaru'r tanberfformiad cyfredol, mae grŵp llywio newydd wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys uwch swyddogion, uwch wleidyddion a phartneriaid o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru. Y nod yw gwerthuso'r arferion gwaith cyfredol a nodi'r ffordd orau ar gyfer gwella perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd hwn a gweithio tuag at y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2025.**

4.4.2 Dangosydd 35 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sydd yn GOCH gyda 73% yn erbyn targed o 82%.

Mae materion capasiti yn y tîm Cynllunio, o ganlyniad i salwch tymor hir, prosesau recriwtio ac ôl-lenwi maith, yn ogystal â phwysau gwaith eraill megis effaith y pandemig cyfredol, yn cynnwys ôl-groniad o geisiadau, wedi arwain at y perfformiad a welwyd yn Ch1.

**Rydym wrthi'n gweithio tuag at atgyfnerthu capasiti'r swyddogaeth Cynllunio drwy gyfrwng Cynllun Gwella Cynllunio a bydd perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn gwella unwaith y bydd gennym fwy o gapasiti**. Mae'r Swyddogaeth Cynllunio wedi llwyddo i gael Swyddog Cynllunio dan Hyfforddiant ac er nad yw'r swydd wedi'i llenwi hyd yma disgwylir y bydd capasiti ychwanegol ar gael erbyn Mawrth 2022. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y swyddogaeth i greu dwy swydd ychwanegol (dros dro i ddechrau arni) yn y tîm Rheoli Datblygu, ac mae'r gwaith recriwtio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac os bydd y broses yn llwyddiannus disgwylir y bydd y capasiti ychwanegol hwn yn ei le cyn diwedd y flwyddyn.

4.5 Rydym wrthi'n datblygu dangosyddion pellach ar gyfer Amcan 3 i ddangos ôl-troed carbon Fflyd a milltiroedd busnes y Cyngor. Bydd y dangosyddion newydd hyn ar waith erbyn adroddiad Ch2 ond disgwylir iddynt gynnwys –

- A - Newid net mewn Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%)
- B – Tua faint o danwydd ffosil a ddefnyddir gan fflyd y Cyngor (tCO2e)
- C - Tua faint o danwydd ffosil a ddefnyddir gan y fflyd Lwyd (cerbydau gweithwyr) (tCO2e)

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

5.2 Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.2.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a chadw llygaid barcud ar y dangosyddion a effeithir arnynt gan bandemig y coronafeirws ar hyn o bryd.

5.2.2 Tynnu dangosydd rhif 8 – canran y busnesau risg uchel a arolygwyd dan raglen a gynlluniwyd ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – oddi ar y cerdyn sgorio ar gyfer eleni oherwydd y pandemig Covid-19 ac yn unol â'r disgwyliadau yng nghynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Tuedd Bl i Fl / Yr on Yr Trend | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 94.60% | - | 94.90% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 93.90% | - | 93.90% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3% | 4.2% | 2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 85% | - | 87.50% |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 65% | - | 65.01% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | 75% | - | 75% |
| 7) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | - | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 8) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | - | 19% | 90% | 90% | 43% | 92% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff (Ch3) | - | - | - | 50% | 50% | - | 75% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff (Ch3) | - | - | - | 80% | 80% | - | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | - | 29 | 12 | 50 | 94 | 104 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | - | 0 | 0 | 3 | 9 | 7 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | - | 7.56 | 18 | 18 | 8.1 | 16.44 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] (Ch4/Q4) | - | - | - | - | - | - | |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3) | - | - | - | - | 3 | - | 6.88 |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | - | 90.00% | 90% | 90% | 92.31% | 91.30% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Ambr / Amber | - | 56.58% | 62% | 62% | 60.36% | 63.08% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | - | 14.82 | 19 | 19 | 15.36 | 17.57 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 98.00% | 93% | 93% | 98.20% | 98.00% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | - | 90.45% | 90% | 90% | 86.87% | 89.62% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | - | 1.97% | 2.50% | 10% | 12.34% | 8.39% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | - | 12.50% | 15% | 15% | 32.00% | 12.75% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | - | 277 | 270 | 270 | 258 | 224 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | - | 99.29% | 95% | 95% | 99.56% | 98.88% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | - | 85% | 90% | 90% | 87.74% | 86.30% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | - | 78.20% | 70% | 70% | 74.74% | 74.91% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | - | 85.71% | 70% | 70% | 75.47% | 77.70% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | - | 178.54 | 170 | 170 | 169 | 159.58 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | - | 41.8 | 40 | 40 | 45.6 | 21.9 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | - | 1.72% | 2.00% | - | 1.98% | 1.42% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | - | 98% | 95% | 95% | 92.00% | 93.79% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | - | 64.55% | 70% | 67% | 62.96% | 67.26% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | - | 0.88 | 1 | 1 | 0.95 | 0.96 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | - | 55.98kg | 60kg | 240kg | 214kg | 206.17kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | - | 73% | 82% | 82% | 79% | 90% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | - | 67% | 65% | 65% | 58% | 78% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | - | 91% | 80% | 80% | 74% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 3% | 2.90% | 4.60% | 4% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 4% | 3.80% | 3.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 9% | 8.70% | 8.50% | 8.20% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol    Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth

Melyn - o fewn 5% o'r targed    Gwyrdd - ar darged neu'n uwch    Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter    Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2021/22

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | - | 10 | 19 | 43 | 67 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 4 | - | 6 | - |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 2 | - | 8 | - |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | - | 88% | 80% | 88% | 94% |
| 04b) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | - | 50% | 80% | 75% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 14 | - | 24 | - |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | 37 | - | 104 | 136 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | 107 | - | 662 | 618 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | - | 83% | 80% | 79.4% | 82% |
| 09) Boddhad Cwsmeriad i'r wasanaeth ffôn - I'w gadarnhau (Ch3) | - | - | - | - | - | - |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | - | 41.5k | - | 33.5k | 15k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | - | 30k | - | 58k | 10.8k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | - | 8.5k | - | 18.5k | 13k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | - | 2k | - | 7k | 6.5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | - | 84k | - | - | - |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | - | 248k | - | 1.03M | 783k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2169 | - | 2180 | 2181 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | - | 2.23 | 2.1 | 6.68 | 9.4 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.87 | - | 1.94 | 4.2 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.36 | - | 4.74 | 5.2 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 6% | 9% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | - | £31,874,000 | £31,500,000 | -1.17% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | - | £147,120,000 | | - | £145,509,437 | -1.09% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £31,692,000 | - | - | £25,366,000 | -19.96% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | - | -£3,403,325 | -£3,419,737 | 0.48% | - | - |
| 05) Swm a fenthycwyd | - | - | £7,188,000 | - | - | £0 | -100.00% |
| 06) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | - | £4,550,756 | - | - | £4,000,380 | 12.09% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 98.1% | - | - | - |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 98.6% | - | - | - |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 100.5% | - | - | - |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 99.63% | - | - | - |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **27 Medi 2021** |
| Pwnc: | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 – 2024/25** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin W. Williams – Aelod Portffolio Cyllid** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Marc Jones – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost | **Marc Jones**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Argymhellion**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2022/23.

Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad 1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau sydd yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Felly, nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi, yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ni fydd y penderfyniad, er y bydd yn cael effaith ar gyllideb 2022/23, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. O'r herwydd, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22.

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae nodi a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer cost gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gosod allan sefyllfa ariannol ar draws Cymru i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai cynigion unigol yn cael eu hasesu mewn perthynas â'u heffaith ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr adeg hynny. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei asesu bryd hynny. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Ystyriodd yr UDA yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 6 Medi 2021. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr a'r UDA yn y drafft terfynol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad 1 – Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>Atodiad 2 – Rhagdybiaethau'r CATC<br>Atodiad 3 – Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2022/23 – 2024/25 |
| **Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.

**1.2.** Lluniwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd parhaus. Er gwaetha'r ffaith fod y cyfnod clo Covid wedi dod i ben, nid yw'n eglur eto pa effaith a gafodd ar economi'r DU a pha mor gyflym fydd yr economi'n dychwelyd i'r un lefel â chyn y pandemig. Efallai bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ond ni fydd modd asesu effaith Brexit ar economi'r DU yn y tymor hir am nifer o flynyddoedd. Mae'r ddeubeth hyn yn ddigwyddiadau sylweddol a fydd yn cael effaith ar lefelau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol.

**1.3.** Mae adolygiad gwariant cynhwysfawr wedi bod ar y gweill gan Lywodraeth y DU ers dwy neu dair blynedd, ond nid yw byth wedi cael ei gwblhau. Mae hyn, yn ei dro'n cael effaith ar allu Llywodraeth Cymru i roi arwydd i awdurdodau lleol Cymru ynghylch lefelau cyllido posib dros y 3 blynedd nesaf. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru, unwaith eto, ond yn darparu setliad ariannol i'r awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf pan fydd yn cyhoeddi'r setliad dros dro yn ddiweddarach eleni.

**1.4.** Unwaith eto, ni ddisgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad dros dro tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021, ac ni fydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan ddechrau Mawrth 2022. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn penderfynu beth fydd y bwlch cyllido posib yn 2022/23 a thu hwnt.

**1.5.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystyried yr holl newidiadau y gwyddys amdanynt y mae'n rhaid eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2022/23, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y gyllideb).

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL GYFREDOL Y CYNGOR

**2.1.** Ym mis Mawrth 2021, gosododd y Cyngor y Gyllideb a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2021/22**

| | £'m |
|---|---:|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2020/21** | **142.146** |
| Newidiadau Cytundebol a Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt | 2.642 |
| Chwyddiant Tâl a Phrisiau | 2.087 |
| Trosglwyddo Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd i'r Setliad | 0.090 |
| Pwysau Cyllidebol | 0.455 |
| Arbedion Cyllidebol | 0.000 |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2021/22** | **147.420** |
| | |
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Cyllid Allanol Cyfunol | 104.825 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 42.295 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0.300 |
| **Cyfanswm Cyllid 2021/22** | **147.420** |

**2.2.** Gwelwyd cynnydd o 3.41% yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn y sylfaen dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Cynyddodd debyd y Dreth Gyngor 2.8%. Roedd cynnydd o 2.75% yn y tâl Band D ac roedd gweddill y cynnydd o ganlyniad i newid yn y sylfaen dreth.

**2.3.** Ni ellid ystyried 2020/21 fel blwyddyn weithredu arferol, gan y cwtogwyd ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, cafwyd costau ychwanegol a chollwyd incwm. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol sylweddol i bob awdurdod lleol, a derbyniodd Ynys Môn £6.035m i gwrdd â chostau ychwanegol, a £2.311m i wneud yn iawn am incwm a gollwyd.

**2.4.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, roedd gan y Cyngor danwariant net o £4.204m (2.85%), ac roedd yr holl Wasanaethau wedi tanwario yn erbyn eu cyllidebau. Oherwydd hynny, cynyddodd balansau cyffredinol y Cyngor i £11.593m, sydd yn cyfateb i 7.86% o gyllideb refeniw net 2021/22. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr targed o £7.37m (5%) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

**2.5.** Wrth i'r pandemig lacio ac wrth i wasanaethau ddechrau gweithredu fel arfer yn ystod 2021/22, mae risg sylweddol y bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu yn ystod 2021/22. Gall hyn fod o ganlyniad i ryddhau'r galw am wasanaethau sydd wedi cronni yn 2021/22, neu bod darparu llai o wasanaethau yn 2020/21 wedi creu problemau a allai arwain at gynnydd yn y galw, yn arbennig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn lliniaru'r risg o orwariant posib, cytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylid codi isafswm lefel y balansau cyffredinol i £9m ar gyfer 2021/22.

**2.6.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gedwir gan y Cyngor i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ar sail unwaith ac am byth, i gyllido costau a ragwelir yn y dyfodol (e.e. colledion nad oedd yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant nad oedd wedi'i ddefnyddio, yn £14.079m ar 31 Mawrth 2021, cynnydd o £5.319m yn ystod y flwyddyn. Mae cyfran sylweddol o'r cynnydd o ganlyniad i £2.277m o gyllid ychwanegol heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru a ddarparwyd i gynorthwyo Cynghorau i gwrdd â chost yr arbedion refeniw na chawsant eu gwireddu, y posibilrwydd o golledion uwch ar y Dreth Gyngor, gwireddu trawsnewid digidol a chwrdd â chostau gwneud taliadau grant ar ran Llywodraeth Cymru. Mae £0.522m yn ymwneud â chyllid grant penodol a dderbyniwyd ar ddiwedd 2020/21 ac a fydd yn cael ei wario yn ystod 2021/22. Mae £0.625m yn ymwneud â chyfraniad a dderbyniwyd gan Ddatblygwr a ddefnyddir gan y Cyngor i gyllido gwaith yn 2021/22.

**2.7.** Roedd cynnydd sylweddol hefyd ym Malansau Ysgolion yn ystod 2020/21, gan godi o £0.197m i £4.016m. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd bod ysgolion ar gau neu ar gau'n rhannol yn ystod y rhan fwyaf o 2020/21 a hefyd oherwydd y derbyniwyd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn 2020/21, ond ni fydd yn cael ei wario tan 2021/22. Wrth i ysgolion ddechrau'r broses o adfer yn dilyn y pandemig, rhagwelir y bydd y balansau hyn yn gostwng yn sylweddol yn ystod 2021/22.

**2.8.** Am y tro cyntaf mewn dros ddeg mlynedd, nid oedd agen cynnwys unrhyw arbedion cyllidebol er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw y Cyngor ar gyfer 2021/22. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y ffaith bod y AEF wedi codi £3.46m (3.4%), i £104,825m, ac roedd hyn, ynghyd â chynnydd o 2.75% yn y Dreth Gyngor, yn ddigon i gydbwyso'r gyllideb. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond £4.6m yn uwch na'r AEF a dderbyniodd y Cyngor yn 2013/14 oedd y AEF ar gyfer 2021/22. Pe byddai'r AEF wedi codi 2% y flwyddyn ers 2013/14, ac ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd a grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad, byddai'r AEF oddeutu £123.5m.

**2.9.** Ers 2013/14, mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion o £24.616m ar draws yr holl wasanaethau. Fe'u cyflawnwyd drwy wneud arbedion effeithlonrwydd, gostwng lefelau staffio, allanoli gwasanaethau, dod â rhai gwasanaethau anstatudol i ben a chynyddu ffioedd a chostau uwchlaw chwyddiant. Erbyn hyn, mae'n fwyfwy anodd parhau i ganfod arbedion effeithlonrwydd ac nid oes modd torri lefelau staffio ymhellach mewn rhai gwasanaethau. Os bydd angen gwneud arbedion yn y dyfodol, yna dim ond drwy dorri gwasanaethau neu foderneiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau y gellir eu cyflawni.

## 3. RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DEYRNAS UNEDIG

**3.1.** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu holl gyllid Llywodraeth Cymru ac mae'r hyn sy'n digwydd yn economi'r DU a'r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**3.2.** Mae'r pandemig byd-eang, a'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i gefnogi'r economi ers mis Mawrth 2020, wedi newid y sefyllfa economaidd yn sylweddol, gyda benthyciadau bellach yn fwy na £2.2 triliwn, sydd 98.8% o Gynnyrch Domestig Gros y wlad. Benthycodd y Llywodraeth £298bn yn ystod 2020/21 ac mae hynny'n cyfateb i 14.2% o'r Cynnyrch Domestig Gros. Dyma'r lefel uchaf o fenthyca yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol ers yr Ail Ryfel Byd. Yn barod yn 2021/22, mae'r swm a fenthycwyd dros £70bn.

**3.3.** Wrth i'r pandemig lacio a'r cyfyngiadau'n gael eu diddymu, mae'r economi wedi dechrau adfer, ond mae'r adferiad wedi arafu oherwydd prinder staff o ganlyniad i Brexit a'r angen i bobl hunanynysu.

**3.4.** Wrth i'r economi ailagor ac i bobl ddechrau gwario arian yn y siopau, dechreuodd chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) godi, gan gyrraedd 2.5% ym mis Mehefin 2021, ond mae'r gyfradd wedi dechrau gostwng yn awr, i 2% ym mis Gorffennaf. Disgwylir i brinder dros dro rhai nwyddau, ynghyd â chynnydd mewn prisiau tanwydd ac ynni, gynyddu chwyddiant yn ystod gweddill 2021, gyda phosibilrwydd y bydd yn cyrraedd 4% erbyn diwedd 2021, cyn gostwng eto yn 2022.

**3.5.** Torrwyd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr i 0.1% ym mis Mawrth 2020 ac mae wedi aros y lefel isel iawn hwn ers hynny. Er y disgwylir i chwyddiant godi uwchlaw'r raddfa darged o 2%, nid oes disgwyl i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr godi cyfraddau hyd y gellir rhagweld, ac mae'n bosib na fydd unrhyw newid tan ganol 2024.

**3.6.** Mae'n anodd asesu pa mor dda fydd yr economi'n adfer yn ystod y misoedd nesaf. Os yw'r niferoedd o achosion Covid yn cynyddu'n gyflym a bod mwy o bobl angen triniaeth ysbyty, yna efallai y bydd rhaid ailgyflwyno cyfyngiadau, a gallai hynny gael effaith sylweddol ar yr adferiad. Er i'r broses Brexit gael ei chwblhau ac er bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae effeithiau Brexit yn parhau a gallai'r sefyllfa waethygu eto os oes anghytuno am weithredu'r Cytundeb Gadael.

**3.7.** Mae'r Llywodraeth dan bwysau cynyddol hefyd i wobrwyo gweithwyr allweddol yn y sector cyhoeddus drwy roi codiadau cyflog uwchlaw chwyddiant iddynt e.e. bydd staff y GIG yn derbyn codiad cyflog o 3%. Staffio yw'r gost mwyaf sylweddol yn y sector cyhoeddus ac mae dyfarniadau cyflog sy'n uwch na chwyddiant yn cael effaith sylweddol ar gostau'r sector cyhoeddus ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth ei gyllido e.e. torri cyllidebau eraill, cynyddu trethi neu fenthyca mwy.

**3.8.** Yn y tymor byr, gallai'r Llywodraeth barhau â'i bolisi o gyllido gwariant ychwanegol drwy fenthyca mwy ond, unwaith y bydd effaith y pandemig wedi lleihau a'r problemau'n ymwneud â Brexit wedi cael eu datrys, bydd y Llywodraeth mewn sefyllfa well i edrych ar gyflwr yr economi yn y tymor hir ac ystyried sut y gellir lleihau benthyca. Gallai hynny fod drwy gynhyrchu mwy o incwm o drethi, ond mae'n debygol y bydd torri ar wariant cyhoeddus yn rhan o'r strategaeth. Cyn y pandemig, strategaeth y Llywodraeth Geidwadol oedd dileu'r diffyg a dechrau lleihau'r ddyled fel canran o'r Cynnyrch Domestig Gros. Mae'n annhebygol y bydd y Llywodraeth Geidwadol yn newid y polisi hwn yn y tymor canol i'r tymor hir, a chan nad ydynt yn Llywodraeth sy'n hoffi cynyddu trethi fel arfer, eu hunig opsiwn i ddechrau lleihau'r ddyled fydd gostwng gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, efallai bod y cyhoeddiad diweddar ar gynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr a chyflogwyr yn dynodi newid ym mholisi y Llywodraeth a gall codiadau trethi gael eu hystyried yn rhan o'r datrysiad i ddileu'r diffyg a lleihau lefel y ddyled.

**3.9.** Os yw llywodraeth y DU yn penderfynu gostwng gwariant cyhoeddus yn Lloegr, bydd yn arwain at dorri'r cyllid y mae Cymru'n ei dderbyn drwy'r fformiwla Barnett. Penderfyniad Llywodraeth Cymru fydd pa gyfran o'r gostyngiad a drosglwyddir i Lywodraeth Leol yng Nghymru.

## 4. CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU

**4.1.** Mae cyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru wedi cyfrifo bod gwerth grantiau Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol wedi gostwng 16.8% mewn termau real, tra bod cyllid o'r Dreth Gyngor a Threthi Busnes wedi codi 39.3% a 5.8% yn y drefn honno. Yn gyffredinol, golyga hyn bod gwariant llywodraeth leol yng Nghymru wedi gostwng 6% yn ystod y cyfnod.

**4.2.** Yn ystod y cyfnod, bu cynnydd o 20% mewn gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol mewn termau real, ond mae pob gwasanaeth arall wedi gweld gostyngiad mewn gwariant mewn termau real, gyda gwasanaethau Diwylliant a Hamdden yn gweld toriadau o dros 40% a thoriadau o dros 50% yn y gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

**4.3.** Roedd cynnydd o 4.6% yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru yn 2021/22 o gymharu â 2020/21 (heb gynnwys cyllid ychwanegol i gwrdd â chostau delio gyda Covid).

**4.4.** Mae Dadansoddi Cyllid Cymru wedi asesu dau senario ac wedi ystyried eu heffaith ar lefel y Cyllid Allanol Cyfun. Mae'r senario gyntaf yn seiliedig ar gynlluniau gwario cyfredol Llywodraeth y DU a'r ail yn seiliedig ar gynlluniau Llywodraeth y DU cyn y pandemig. O dan y senario gyntaf, amcangyfrifir twf o 0.9% yn y Cyllid Allanol Cyfun a grantiau penodol eraill yn 2022/23, wedi ei ddilyn gan gynnydd o 2.6% yn 2023/24 a 2.9% yn 2024/25. O dan senario 2, amcangyfrifir y bydd y twf yn 4.3% yn 2022/23 ac yna cynnydd o 3.3% a 3.2% yn y ddwy flynedd i dilynol.

**4.5.** Mae'r ffigyrau gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn dangos yr effaith posib y gallai delio â'r pandemig ei gael ar gyllideb Llywodraeth Cymru, ond dylid nodi efallai bod y sefyllfa wedi newid eto ers iddynt gyhoeddi eu dadansoddiad ym mis Ebrill 2021. Mae eu dadansoddiad yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru'n cynyddu'r AEF yn unol â'r twf a ragwelir yng Nghyllideb Cymru. Fodd bynnag, mae bwlch cyllido sylweddol rhwng y symiau canlyniadol y bydd Llywodraeth Cymru'n eu derbyn o ganlyniad i gynyddu gwariant ar y GIG yn Lloegr, a'r symiau sydd eu hangen i ddelio â'r rhestrau aros yn y GIG yn dilyn y pandemig yn ogystal â galwadau newydd ar y GIG. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru'n amcangyfrif y bydd y bwlch cyllido yn £740m yn 2022/23 ac yn £360m wedi hynny. Felly, bydd Llywodraeth Cymru dan bwysau sylweddol i gyfeirio adnoddau ychwanegol i'r GIG yng Nghymru ac, yn anorfod, bydd hyn yn arwain at ostwng cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol.

## 5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1.** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Leol yn wynebu llawer o bwysau cyllidebol, yn arbennig ym maes Gofal Cymdeithasol, ond hefyd wrth ddelio gyda Covid yn y tymor hir. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru'n amcangyfrif y bydd pwysau cyllidebol a wynebir gan awdurdodau lleol yng Nghymru'n amrywio o £575m i £1,182m yn 2022/23 ac y bydd cynnydd o rhwng £200m a £300m bob blwyddyn wedi hynny.

**5.2.** Mae'r prif feysydd yr ystyrir y byddant yn creu'r prif bwysau cyllidebol i'r Cyngor yn ystod tymor y cynllun hwn fel a ganlyn:-

**i. Codiadau Cyflog – Cyflogau staff nad ydynt yn Athrawon**

Mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yn cael ei bennu ar draws Cymru a Lloegr ar sail cytundeb rhwng y Cyflogwyr a'r Undebau. Ar gyfer 2021/22, y cynnig ar hyn o bryd yw cynnydd o 1.75%. Wrth osod cyllideb 2021/22, caniatawyd ar gyfer codiad cyflog o 1%. Bydd y 0.75% ychwanegol yn arwain at gynnydd o thua £375k mewn gwariant ar gyflogau staff nad ydynt yn athrawon. Nodwyd cyllid i gwrdd â'r gost ychwanegol yn 2021/22, ond bydd angen cynnydd yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2022/23. At ddibenion y cynllun, rhagdybir y bydd y dyfarniadau cyflog ar gyfer 3 blynedd y cynllun yn 2% y flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegu ychydig dros £1m i'r bil cyflog blynyddol.

**ii. Codiadau Cyflog – Cyflogau Athrawon**

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyflogau athrawon ac mae'r dyfarniad cyflog yn weithredol o fis Medi bob blwyddyn. Yn yr un modd â chyflogau staff nad ydynt yn athrawon, pennwyd codiad cyflog o 1.75%, ac mae hynny 0.75% yn uwch na'r swm y darparwyd ar ei gyfer yng nghyllideb 2021/22. Mae hyn yn golygu cynnydd o £135k yn y costau yn 2021/22, ond, gan mai penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a achosodd y cynnydd, maent yn darparu cyllid grant ychwanegol i gwrdd â'r gost ac yna byddant yn cynnwys y grant mewn unrhyw setliad yn y dyfodol. Effaith y dyfarniad cyflog dros flwyddyn lawn yw £230k. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 2% y flwyddyn yn ystod 3 blynedd y cynllun ac mae'n golygu cynnydd mewn gwariant o ychydig dros £500k y flwyddyn.

**iii. Yswiriant Gwladol**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol i weithwyr a chyflogwyr 1.25% i gyllido'r gost gynyddol o ofal cymdeithasol. Daw hyn a chyfraniadau'r cyflogwr o'u lefel bresennol o 13.8% i 15.05%, cynnydd o ychydig dros 9%. Felly, mae'r cynnig hwn, ynghyd â'r dyfarniad tâl, yn cynyddu cost yswiriant gwladol blynyddol i'r Cyngor o £685k. Bydd unrhyw gynnydd ym maich trethol gweithwyr hefyd yn rhoi pwysau ar godiadau cyflog wrth i Undebau geisio gwneud yn iawn am unrhyw incwm a gollir i dreth drwy ddyfarniadau tâl uwch. Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i ddweud beth fydd effaith y cynnydd arfaethedig yn yswiriant gwladol ar ddyfarniadau tâl y dyfodol.

**iv. Contractau Gwasanaeth Mawr**

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor yn cael eu hallanoli, gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, y mwyafrif o wasanaethau gofal cartref, cludiant ysgol a chontractau bysiau cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r contractau'n gytundebau tymor hir a ddaw i ben ar ôl cyfnod y cynllun hwn. Daeth y contract prydau ysgol i rym ar 1 Medi 2021 a bydd yn creu arbedion o thua £300k. Bydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 ac wedi hynny'n cael ei haddasu yn ôl yr angen.

**v. Ffioedd Cartrefi Gofal Nyrsio, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Phreswyl a Chartrefi Gofal Preswyl**

Ers nifer o flynyddoedd penderfynwyd ar y cynnydd mewn ffioedd cartrefi gofal preswyl, nyrsio a henoed bregus eu meddwl gan ddefnyddio offeryn safonol a ddefnyddir gan y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Fodd bynnag, yn 2020, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i gynyddu'r ffioedd hyn dros dro, sef cynnydd o £50 y gwely yr wythnos. Roedd y cynnydd yn caniatáu i gartrefi gyllido'r cynnydd mewn costau oherwydd Covid. Mae'r cyllid ychwanegol yn parhau i fod mewn lle ar gyfer 2021/22, er y bydd yn dechrau gostwng yn raddol o fis Hydref 2021 ymlaen. Bydd y sector Cartrefi Gofal yn rhoi pwysau sylweddol ar y Cyngor i gynnal y lefel ffi uwch. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fydd Llywodraeth Cymru'n fodlon cyllido'r cyfan neu gyfran o'r costau hyn drwy gynyddu'r setliad. Amcangyfrifir y bydd cost y cynnydd dros flwyddyn gyfan yn £750k.

**vi. Cyflog Byw Gwirioneddol i Staff Darparwyr Gofal**

Y Cyflog Byw Cenedlaethol yw'r isafswm statudol y mae'n rhaid i gyflogwr ei dalu (£8.72 yr awr ar gyfer oedolion dros 25 oed ar hyn o bryd). Y Living Wage Foundation sydd yn penderfynu ar y Cyflog Byw Gwirioneddol a dyma yw eu hasesiad nhw o'r isafswm sydd ei angen ar bobl i gwrdd â'u costau byw. Ar hyn o bryd, mae'n £9.50 yr awr h.y. £0.78 yn uwch na'r cyflog Byw Cenedlaethol. Er bod y Cyngor yn talu mwy na'r cyflog byw gwirioneddol, mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal allanol y Cyngor yn talu llai na'r cyflog byw gwirioneddol. Oherwydd y pandemig, mae pwysau i wobrwyo staff gofal yn well drwy gynyddu eu tâl a thalu'r cyflog byw gwirioneddol iddynt. Er mwyn i ddarparwyr gofal wneud hyn, byddai'n rhaid i'r Cyngor gynyddu'r ffioedd y mae'n eu talu i'r cartrefi gofal, darparwyr llety â chymorth a darparwyr gofal cartref. Amcangyfrifir y byddai cynnydd o £340k y flwyddyn yng nghostau'r Cyngor o ganlyniad i hyn.

**vii. Gwasanaethau Plant**

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ddiweddar i sicrhau bod costau ei Wasanaethau Plant o fewn ei gyllideb. Er bod buddsoddiad ychwanegol wedi'i wneud yn y Gwasanaeth, mae cost gyfartalog lleoliad wedi gostwng yn sgil recriwtio mwy o ofalwyr maeth ac agor Cartrefi Clyd. O'r herwydd, nid oes cymaint o alw am leoliadau all-sirol costus i leoli'r plant. Yn ystod y cyfnod clo, derbyniwyd llai o atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill ac ysgolion. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd nifer y plant sy'n dod i mewn i ofal yn dechrau cynyddu yn 2021 ac wedi hynny. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer 5% o gynnydd yn y gyllideb uwchlaw chwyddiant yn 2022/23, ac mae hynny'n ychwanegu £560k i'r gyllideb.

**viii. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Yn yr un modd â'r Gwasanaethau Plant, mae risg sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion (yr henoed, iechyd meddwl, anableddau dysgu ac ati) yn cynyddu wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Caniatawyd ar gyfer cynnydd o 5% yn y galw yn 2022/23, a fydd yn arwain at gynnydd o thua £500k yn y costau. Mae hyn ar ben unrhyw gynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant.

**ix. Lleoliadau Ysgol All-sirol**

Fel rhan o gyllideb refeniw 2019/20, dyrannwyd swm ychwanegol o £202k i'r gyllideb hon er mwyn cwrdd â chostau cynyddol lleoliadau a'r cynnydd yn y galw. Gan fod y Gwasanaethau Plant wedi llwyddo i leoli plant gyda darparwyr gofal ar Ynys Môn, mae'r angen am leoliadau all-sirol wedi gostwng, ac mae hynny wedi arwain at nifer is o leoliadau addysg all-sirol hefyd. Er nad oedd 2020/21 yn flwyddyn gynrychioladol oherwydd Covid, roedd tanwariant o £750k yn y gyllideb. Rhagwelir tanwariant yn 2021/22, ond nid i'r un graddau. Fodd bynnag, mae lle i ostwng y gyllideb gan £400k. Dylid nodi, fodd bynnag, gall nifer y lleoliadau allsirol gynyddu'n sydyn petai plant yn dod i'r sir lle ni ellir cwrdd a'u anghenion gan y ddarpariaeth addysg a geir ar yr Ynys ac, o ganlyniad, fe all fod angen cynyddu'r gyllideb yma eto'n y dyfodol.

**x. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i'r setliad llywodraeth leol, nid yw'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun wedi newid. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Er gwaetha'r pandemig, nid ydym wedi gweld cynnydd sylweddol hyd yma yn y niferoedd sy'n gwneud cais am gymorth drwy'r cynllun. Fodd bynnag, wrth i'r cynllun diogelu swyddi, y cynllun ffyrlo, ddirwyn i ben ac wrth i fusnesau geisio dychwelyd i fasnachu fel arfer, mae risg y gallai busnesau fethu ac y bydd diweithdra'n cynyddu. Dengys amcangyfrifon diweddar y bydd lefel y nifer sy'n colli swyddi yn debygol o fod yn is na'r amcangyfrifon. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 5% yn y llwyth achosion yn 2022/23 ac yna mae'n dychwelyd i lefel 2021/22 yn ystod y ddwy flynedd ddilynol. Mae cynnydd o 5% yn y llwyth achosion yn ychwanegu oddeutu £300k i'r gyllideb sydd ei hangen. Mae pob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn golygu cynnydd pellach o £60k yn y costau.

**xi. Costau Cyllido Cyfalaf**

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau sy'n bodoli'n barod a benthyciadau newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Ddarpariaeth Refeniw Isaf neu DRI). Penderfynir ar y DRI yn unol â'r Polisi DRI a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn gofyn am rywfaint o fenthyca ychwanegol ac, wrth i lefel y benthyca gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi DRI a thaliadau llog cysylltiedig yn cynyddu hefyd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn rhoi ystyriaeth i lefel y benthyca â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant y mae'r Cyngor wedi'i gynllunio ar ysgolion newydd yn Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig.

Fodd bynnag, dylid nodi fod pris gwaith adeiladu wedi cynyddu ers i'r cyfyngiadau lacio, gyda prinder deunyddiau a llafyr yrn arwain at brisiau uwch. Efallaiu fod y prisiau uwch yma ond ar gyfer y tymor byr a gall costau ddechrau lleihau yn 2021 ond, os ni ddigwyddith hyn, yna bydd cost prosiectau cyfalaf yn codi, a gall arain at fenthyca chwanegol, fydd yn arwain wedi hynny i gynnydd yn y costau cyllido cyfalaf. O ystyried yr ansicrwydd, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth tuag at y risg posib yma yn y cynllun cyfredol.

**xii. Newid Arferion Gwaith**

Mae'n debygol ni fydd y Cyngor byth yn dychwelyd i'r ffordd o weithio cyn y pandemig, gyda staff wedi eu lleoli'n y swyddfa yn mynychu'r swyddfa 5 diwrnod yr wythnos a chyfarfodydd yn cymryd lle wyneb yn wyneb. Bydd rhaid buddsoddi, dros nifer o fisoedd, mewn caledwedd a meddalwedd, i sicrhau y gall staff ac Aelodau fynychu cyfarfodydd ar sail hybrid (cymysgedd o fynychu'n gorfforol a mynychu o bell), ond bydd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle am arbedion refeniw. Amcangyfrifir y gwneur arbedion o thua £110k drwy fynychu llai o gyfarfodydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd cynnydd yn staff yn gweithio gartre yn arwain at arbedion yng nghostau swyddfa (papur, llungopïo, postio, ffôn) a amcangyfrifir i fod tua £85k. Yn ogystal, byddai arbediad yng nghostau trydan o thua £10k. Mae'r arbedion bosib yma wedi'u cynnwys yn y cynllun.

**xiii. Newidiadau Ymrwymedig a Chostau Unwaith ac am Byth**

Gallai penderfyniadau a wneir yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol sefydlu gofyniad parhaus yn y gyllideb, yn ogystal â newidiadau eraill a allai ddigwydd sy'n gofyn am gyllid ychwanegol neu gyllid unwaith ac am byth.

Cynhelir yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 a bydd angen £200k o gyllid unwaith ac am byth i gyllido costau cynnal yr etholiad. Yn ogystal, bydd nifer yr Aelodau'n cynyddu o 30 i 35 ar ôl yr etholiad. Bydd y 5 Aelod ychwanegol yn derbyn y Lwfans Aelodau safonol, a bydd hyn yn golygu cynnydd o £75k yn y gyllideb Lwfans Aelodau.

Bob blwyddyn mae addasiad yn cael ei wneud i adlewyrchu newid mewn niferoedd disgyblion. Roedd y ffigwr hwn yn sylweddol yn y gorffennol wrth i ddisgyblion symud o'r sector cynradd i'r sector uwchradd, yn ogystal â chynnydd yn nifer y disgyblion yng Nghanolfan Addysg y Bont (CAYB). O 2022/23, bydd symudiad disgyblion o'r sector cynradd i'r sector uwchradd yn arafu ac mae CAYB yn agos iawn i'w chapasiti. O ganlyniad, nid oes angen swm sylweddol o gyllid ychwanegol o ganlyniad i newid mewn niferoedd disgyblion.

Nid oes unrhyw newidiadau ymrwymedig sylweddol eraill (h.y. costau y mae rhwymedigaeth cytundebol ar y Cyngor i'w cyllido neu y mae eu hangen i gynnal y gwasanaeth ar y lefel bresennol) wedi cael eu nodi ar hyn o bryd ond gallai hyn newid wrth wneud gwaith manwl i baratoi'r gyllideb.

Bydd yr angen i sefydlu Panel Asesu Perfformiad o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn creu costau ychwanegol i'r Cyngor. Amcangyfrifir cost o £35k y flwyddyn ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n cyllido'r gost drwy'r AEF.

**xiv. Cynnydd Arall yn y Gyllideb**

Fel rhan o'r broses o baratoi'r gyllideb, cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu gwasanaeth rhwng Aelodau a Swyddogion i drafod meysydd posib lle bydd angen cynyddu cyllidebau i gwrdd â newidiadau yn lefel y gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gwneud penderfyniadau ar nifer o geisiadau yn barod a fydd yn ychwanegu costau ychwanegol i'r gyllideb refeniw sy'n cyfateb i £344k.

Cynhelir trafodaethau pellach fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23 ynghylch â oes angen buddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaethau cefnogol y Cyngor a phrosesau rheoli perfformiad. Mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i gyflogi cohort ychwanegol o staff dan hyfforddiant fel rhan o strategaeth datblygu gweithlu'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm y costau ychwanegol posib yn £439k.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Eiddo wrthi'n drafftio Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor am y 5 mlynedd nesaf a fydd yn amlinellu anghenion y Cyngor o ran adeiladau i ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol a'r buddsoddiad sydd ei angen i gynnal yr adeiladau hynny. Er y bydd y rhan fwyaf o'r buddsoddiad sydd ei angen yn cael ei ariannu o'r gyllideb gyfalaf, mae hefyd yn debygol y bydd yn rhaid cynyddu'r gyllideb refeniw atgyweiriadau a chynnal a chadw flynyddol. Gwnaed rhagdybiaeth yn y cynllun hwn y bydd angen £100k ychwanegol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn parhau i fod yn addas i'r diben ac nad yw eu cyflwr yn dirywio'n sylweddol.

**xv. Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau**

Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cael eu codi bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu chwyddiant penodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ar hyn o bryd, mae'r CPI yn 2% a disgwylir iddo godi yn y tymor byr ond, yn y tymor hir, ystyrir y bydd CPI yn aros oddeutu 2%. Ar sail y rhagdybiaeth hon, bydd chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau'n arwain at gynnydd o thua £1.5m y flwyddyn yn y gyllideb flynyddol.

## 6. INCWM

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (heb gynnwys AEF, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn dod i gyfanswm o £22.6m. Mae'r swm yn cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus, ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth neu gytundeb rhentu tymor hir, a ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod y ffi neu'r tâl.

**6.2.** Polisi'r Cyngor yw cynyddu'r ffioedd a thaliadau dewisol gan 3% bob blwyddyn er, mewn rhai gwasanaethau, mae cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau yn golygu bod ffioedd y Cyngor wedi dod yn llawer agosach at y ffioedd a godir gan y sector preifat e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun. Y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau statudol yn cynyddu yn unol â'r CPI.

**6.3.** Yn 2020/21, cyflwynodd y Cyngor ffi ar gyfer casglu gwastraff gardd gwyrdd. Amcangyfrifwyd y byddai 10,000 o bobl yn tanysgrifio i'r gwasanaeth ac y byddai'n cynhyrchu £350k o incwm ychwanegol. Mewn gwirionedd, mae oddeutu 15,400 wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth, gan gynhyrchu incwm ychwanegol o £216k. Fodd bynnag, rhagwelir efallai na fydd rhai'n dewis tanysgrifio i'r gwasanaeth yn ystod yr ail flwyddyn, a gwnaed rhagdybiaeth y bydd 14,000 yn tanysgrifio i'r gwasanaeth yn 2022/23. Mae'r incwm ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn y cynllun.

**6.4** Yn ychwanegol i incwm o'r ffioedd a thaliadau, derbynnir swm sylweddol o incwm grant. Gall y grantiau a ddergynnir fod i gyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy gyffredinol eu natur ac yrn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector gyhoeddus, mae risg gellir targedu a gostwng grantiau er mwyn lleihau gwaiant cyhoeddus, yn hytrach na gostyngiad yn y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Pan fo grantiau;n cyllido prosiectau penodol, yna mae;rn bosib i ddirwyn y prosiect i ben petai;r grant yn dod i ben, ond mae hyn yn anoddach pan fo gwasanaethau;n cael ru darparu grwy bgyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

**6.5** Mae asesiadau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i weld os allai'r Cyngor ddod yn Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer porthladd Caergybi. Gallai hyn ddarparu cyfle i'r Cyngor i gynhyrchu refeniw net ychwanegol. Mae hi'n rhy fuan i ddweud os yw hyn yn bosib, ond mae'n debygol, ar y cychwyn, mai'r canlyniad tebygol fydd sefyllfa gytbwys, gyda'r incwm yn ddigonol i gwrdd â'r costau rhedeg. O ganlyniad, ni wnaed lwfans yn y cynllun ar gyfer yr incwm ychwanegol posib.

**6.6** Dros gyfnod y pandemig, mae'r Cyngor wedi profi colled incwm, yn enwedig yng Ngwasanaethau Hamdden ac yn incwm meysydd parcio canol tref. Derbyniwyd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y colledion yma, hawliwyd £315k ar gyfer yr incwm a gollwyd yn ystod chwarter cyntaf 2021/22. Er dylai'r golled yn chwarter 2 fod yn sylweddol is, mae risg ni fydd rhai gwasanaethau'n gallu dychwelyd i'r capacity cyn-pandemig neu fod lefel defnyddwyr y gwasanaeth yn llai. O ystyried hyn, mae posibilirwydd o ostyngiad incwm tymor hir. Mae'n rhy fuan i amcangyfrif yr effaith tymor hir ac, o ganlyniad, ni wnaed unrhyw lwfans am hyn yn y cynllun.

## 7. Y GYLLIDEB RAGAMCANEDIG AR GYFER 2022/23 – 2024/25

**7.1.** Trwy ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a chan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosib amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 3 blynedd nesaf, ac mae hyn yn cael ei ddangos yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Cyllideb Gwariant Refeniw Net Ragamcanedig 2022/23 i 2024/25**

| | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **147.420** | **153.987** | **157.178** |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon | 1.329 | 1.086 | 1.107 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 0.499 | 0.687 | 0.701 |
| Cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol | 0.681 | 0.000 | 0.000 |
| Contractau Gwasanaeth Mawr | (0.103) | 0.324 | 0.330 |
| Gofal Cymdeithasol – Pwysau Cyllido Cenedlaethol | 1.092 | 0.000 | 0.000 |
| Galw yn y Gwasanaethau Plant | 0.560 | 0.125 | 0.130 |
| Galw yn y Gwasanaethau Oedolion | 1.057 | 0.197 | 0.203 |
| Addysg All-sirol a Niferoedd Disgyblion | (0.278) | 0.082 | (0.089) |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.314 | (0.170) | (0.171) |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (0.320) | 0.215 | 0.253 |
| Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau | 1.168 | 1.478 | 1.513 |
| Incwm – Incwm Ychwanegol a Chwyddiant | (0.650) | (0.596) | (0.538) |
| Gwariant Unwaith ac Am Byth / Newidiadau Ymrwymedig | 0.200 | (0.237) | 0.000 |
| Pwysau Cyllidebol Arall | 1.018 | 0.000 | 0.000 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net** | **153.988** | **157.178** | **160.617** |
| | | | |
| **Cynnydd Blynyddol** | **6.567** | **3.191** | **3.439** |

**7.2.** Mae'r Gyllideb Refeniw Net amcangyfrifiedig yn cynrychioli cynnydd o 8.95% dros y cyfnod o 3 blynedd.

**7.3.** Mae rhagor o fanylion am y Gyllideb Refeniw Net amcangyfrifedig a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.

**7.4.** Nid yw'r ffigyrau uchod yn cymryd i ystyriaeth cost delio gyda'r pandemig a darparu gwasanaethau sy'n lleihau'r perygl o drosglwyddo'r feirws. Os na chanfyddir datrysiad i'r feirws a bod cadw pellter cymdeithasol a threfniadau glanhau ychwanegol yn dod yn rhan o fywyd bob dydd, yna nid yn unig y bydd hyn yn cynyddu costau e.e. glanhau, lleihau capasiti ar gludiant cyhoeddus a chludiant ysgol, y posibilrwydd o gostau salwch uwch, ond bydd hefyd yn cael effaith ar brif ffynonellau o incwm i'r Cyngor o ganolfannau hamdden, meysydd parcio ac ati.

## 8. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1.** Cyllidir y gyllideb ddisymud amcangyfrifedig o'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF)a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2.** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae'r sefyllfa o ran y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2022/23 yn aneglur ac yn anodd iawn ei ragweld, ac mae ceisio rhagweld y setliad tebygol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol yn anos fyth.

**8.3.** Yn 2020/21, derbyniodd Ynys Môn Gyllid Allanol Cyfun o £104.825m gan Lywodraeth Cymru.

**8.4.** Ym mis Medi 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar gynnydd cyfartalog o 5% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor (21.55% ar gyfer y 4 blynedd hyd at 2021/22). Ar sail y penderfyniad hwn, dylai cost y Dreth Gyngor ar gyfer Eiddo Band D yn 2021/22 fod yn £1,322.46. Mewn gwirionedd, mae'r cynnydd wedi amrywio bob blwyddyn; 2018/19 – 4.8%, 2019/20 – 9.5%, 2020/21 – 4.5%, 2021/22 – 2.75% (23.22% ar gyfer y 4 blynedd hyd at 2021/22), ac roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn 2021/22 yn £1,340.64.

**8.5.** Mae Tabl 3 isod yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn ei gael ar gyllid y Cyngor:-

**Tabl 3**

**Effaith Newidiadau yn y AEF a'r Dreth Gyngor ar Gyllid y Cyngor ar gyfer 2022/23**

| | | **Newid yn yr AEF – Swm Ariannol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **- 2%** | **-1%** | **0%** | **+1%** | **+2%** | **+3%** | **+4%** | **+5%** |
| | | **£'m** | | | | | | | |
| **Cynnydd yn y Dreth Gyngor (heb gynnwys cynnydd yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)** | **0%** | -2.10 | -1.05 | 0.00 | +1.05 | +2.10 | +3.14 | +4.19 | +5.24 |
| | **1%** | -1.67 | -0.63 | +0.42 | +1.47 | +2.52 | +3.57 | +4.62 | +5.66 |
| | **2%** | -1.25 | -0.20 | +0.85 | +1.89 | +2.94 | +3.99 | +5.04 | +6.09 |
| | **3%** | -0.83 | +0.22 | +1.27 | +2.32 | +3.37 | +4.41 | +5.46 | +6.51 |
| | **4%** | -0.40 | +0.64 | +1.69 | +2.74 | +3.79 | +4.84 | +5.88 | +6.93 |
| | **5%** | +0.02 | +1.07 | +2.11 | +3.16 | +4.21 | +5.26 | +6.31 | +7.36 |

## 9. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**9.1.** Dylid nodi hefyd mai dim ond gosod y gyllideb refeniw flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd y Cyngor presennol, a'r Cyngor newydd fydd yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ac yn gosod y gyllideb flynyddol ar gyfer y ddwy flynedd olaf y cynllun hwn. Bydd newid mewn blaenoriaethau'n cael effaith ar y gyllideb refeniw a gallai gynyddu neu ostwng y bwlch cyllido.

**9.2.** Gellir gweld o Dabl 3 y byddai gostyngiad yn yr AEF yn 2022/23 yn gofyn am gynnydd o rhwng 4% a 5% yn y Dreth Gyngor dim ond er mwyn cynnal lefel bresennol y cyllid mewn termau arian parod.

**9.3.** Er mwyn llenwi'r bwlch cyllido ar gyfer 2022/23 yn llawn, byddai angen cynnydd o 5% yn y Cyllid Allanol Cyfun, ynghyd â chynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor, i gyllido'r gwariant net ychwanegol yn llawn. Mae'r sefyllfa'n gwella yn ystod y ddwy flynedd ddilynol, gyda chynnydd o 2% yn yr AEF yn golygu y byddai angen cynnydd o rhwng 2% a 3% yn y Dreth Gyngor i bontio'r bwlch cyllido.

**9.4.** Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdodau Lleol wedi cyflwyno'r achos dros gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru ac, yn arbennig yr angen i gyllido pwysau ychwanegol mewn gofal cymdeithasol, efallai na fydd cyllideb Llywodraeth Cymru'n caniatáu am gynnydd o 5%, neu efallai y byddant yn penderfynu blaenoriaethu meysydd gwariant eraill e.e. iechyd. Felly, unwaith eto, efallai y bydd rhaid nodi arbedion er mwyn dod â'r gyllideb gwariant net i lawr i lefel y gellir ei chyllido drwy unrhyw gynnydd yn yr AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd y mwyafrif o'r Aelodau'n ei gefnogi.

**9.5.** Felly, bydd angen ystyried gweithredu rhywfaint o arbedion er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2022/23. Mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau nad oes modd gwneud unrhyw arbedion arnynt, ac maent yn cynnwys:-

Ardoll yr Awdurdod Tân – £3.69m yn 2021/22
Costau Cyllido Cyfalaf – £7.48m yn 2021/22
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – £6.29m yn 2021/22
Costau Pensiwn Hanesyddol – £1.04m yn 2021/22
Taliad Diffyg Blynyddol y Cynllun Llywodraeth Leol – £0.83m yn 2021/22
Lwfansau Aelodau – £0.77m yn 2021/22
Gwasanaethau ar y Cyd ag Awdurdodau Lleol Eraill - £2.7m yn 2021/22
Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol a Phenodol – £0.62m yn 2021/22

**9.6.** Felly, mae'n rhaid i unrhyw arbedion ddod o'r cyllidebau sy'n weddill (£124m yn 2021/22). Os gwneir rhagdybiaeth ar bwynt canolog i gynyddu'r AEF (2%) a'r Dreth Gyngor (3%), byddai hyn yn gostwng y bwlch cyllido o £6.75m i £3.20m. Mae hyn gyfystyr ag arbedion o 2.2% o'r gyllideb refeniw net, neu 2.6% o'r cyllidebau lle mae'n bosib gwneud arbedion arnynt.

**9.7.** Mae gwaith wedi dechrau i nodi arbedion ond mae'r strategaeth flaenorol o ganfod arbedion effeithlonrwydd, sef cynyddu incwm, caffael yn well, lleihau gorbenion a defnyddio cyllidebau heb eu defnyddio, wedi defnyddio'r arbedion posib. Mae adolygiad cychwynnol wedi nodi tua £700k o arbedion posib ar gyfer 2022/23 ar draws yr holl wasanaethau, ac mae'n bosib na fydd hyn yn ddigon i bontio'r bwlch cyllido os yw'r setliad gan Lywodraeth Cymru yn agosach at ben isaf y cynnydd amcangyfrifedig. Er mwyn cyflawni lefel sylweddol o arbedion, mae angen i'r cynlluniau fod yn fwy radical ac efallai y bydd rhaid gwneud toriadau pellach mewn gwasanaethau. Yn ogystal, rhagwelir bod oddeutu £200k o arbedion yn bosib o ganlyniad i newid mewn arferion gwaith yn dilyn y pandemig (llai o gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mwy o bobl yn gweithio gartref gan arwain at lai o gostau swyddfa, mwy o ddefnydd o gyfathrebu electronig gan olygu llai o gostau yn gysylltiedig â phapur, postio a chostau ffôn).

**9.8.** Mae'r Cyngor wedi cychwyn rhaglenni gwaith i foderneiddio gwasanaethau a'u darparu ar lai o gost, e.e., y rhaglen moderneiddio ysgolion, darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol dydd, ond mae'r prosesau hyn yn cymryd amser i'w cwblhau ac mae'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth wedi eu gwrthwynebu. Mae'n annhebygol y bydd y strategaeth a ddilynwyd hyd yma yn cyflawni'r lefel o arbedion fydd yn ofynnol os bydd y setliad llywodraeth leol yn un gwael, gyda dim neu ychydig iawn o dwf yn nhermau arian parod. Er mwyn cydbwyso'r gyllideb, bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac mae nifer o risgiau a allai atal y Cyngor rhag cyflawni pob un o'r camau hyn. Maent yn cynnwys:-

- Cynydd parhaus yn y galw am wasanaethau;
- Disgwyliad gan y cyhoedd y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ag y mae wedi'i wneud yn y gorffennol;
- Bod Llywodraeth Cymru'n asesu'r gwasanaethau a ddarperir ac yn dal i ddisgwyl gwelliannau iddynt;
- Bod y cyhoedd yn gwrthwynebu codi'r Dreth Gyngor uwchlaw cyfraddau chwyddiant, yn enwedig os yw'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn lleihau - talu mwy am lai;
- Gwrthwynebiad cryf gan gymunedau ac Aelodau i gau cyfleusterau yn eu hardaloedd;
- Y gallu i sicrhau newid o fewn y Cyngor. Wrth i strwythurau rheoli gael eu hadolygu a'u lleihau, mae nifer y staff profiadol wedi gostwng ac mae hynny'n ei gwneud yn anoddach i'r staff sy'n weddill reoli'r gwasanaethau presennol wrth weithredu newidiadau sylweddol ar yr un pryd.

**10. CASGLIADAU**

**10.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r gyllideb refeniw net amcangyfrifedig ar gyfer y 3 blynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, gyda rhai ohonynt yn fwy pendant nag eraill. Mae'r Cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth gyllido ar gyfer y dyfodol, ond mae yna nifer o faterion sydd yn cynyddu'r ansicrwydd ynghylch y cynllun. Maent yn cynnwys darogan y galw am wasanaethau yn y dyfodol wrth i'r wlad symud o'r pandemig i'r cyfnod adfer, a chyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r lefel o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae diffyg rhagolygon cywir ar lefel y cyllid yn lleihau lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei roi.

**10.2.** Bydd y galw am wasanaethau a'r pwysau i gynyddu cyflogau rhai carfanau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan gontract) yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau, yn enwedig yn 2022/23. Os na fydd y pwysau ychwanegol ar y costau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y setliad cyllido gan Lywodraeth Cymru, yna bydd rhaid i'r Cyngor wneud toriadau pellach mewn gwasanaethau a / neu godi'r Dreth Gyngor uwchlaw cyfradd chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys, sydd yn caniatáu i'r Cyngor fodloni ei rwymedigaethau statudol ac sy'n adlewyrchiad cywir o'r gost o ddarparu'r gwasanaethau hynny.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **ATODIAD 2** |
| **RHAGBYBIAETHAU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG** | | | |
| | | | |
| | **Terfynol** | | |
| | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| | | | |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 1.60% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Graddfeydd Yswiriant Gwladol | 9.05% | 0.0% | 0.0% |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Dysgu | 2.81% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau staff nad ydynt yn Dysgu | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Addasiad Trosiant Staff | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Drifft Graddol | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Lwfansau Aelodau (codi i 35 Aelod yn 2022) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Chwyddiant Lwfans Car | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Chwyddiant Ynni | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Incwm Anstatudol | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Llwyth Gwaith Lleoliadau Plant | 10.0% | 2.0% | 2.0% |
| Lleoliad Ysgol All-Sirol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Llwyth Gwaith Di-gartrefedd | 50.0% | 2.0% | 2.0% |
| Tunelli Gwaredu Gwastraff | 0.0% | -2.0% | -2.0% |
| Llwyth Gwaith CGDG | 5.0% | -2.5% | -2.5% |
| Cynnydd Cyfraddau Llôg | 0.3% | 0.5% | 1.0% |
| Ardoll Tân | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Rhagamcanion CAC | 4.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Casglu Gwastraff | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Gwaredu Gwastraff | -9.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Prydau Ysgol | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cludiant Ysgol | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Contractau Bysiau Gwasanaeth Cyhoeddus | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Henoed | 5.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Corfforol | 5.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Dysgu | 5.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl | 5.0% | 1.0% | 1.0% |
| Ffioedd Catrefi Henoed / Nyrsio £50 yr wythnos y gwely | £750,000 | £0 | £0 |
| Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Staff Darparwyr Gofal | £342,000 | £0 | £0 |
| Gwastraff Gwyrdd Gerddi | -£140,000 | £0 | £0 |
| Contract Prydau Ysgolion | -£300,000 | £0 | £0 |
| Lleoliadau All Sirol Ysgolion | -£400,000 | £0 | £0 |
| Lwfansau Aelodau (codi i 35 Aelod yn 2022) | £75,000 | £0 | £0 |
| Arbedion Partneriaeth Gwynedd a Môn | -£80,000 | £0 | £0 |
| Arbedion drwy newid arferion gwaith - Safleoedd | -£10,000 | £0 | £0 |
| Arbedion drwy newid arferion gwaith - Lwfansau Car | -£87,000 | £0 | £0 |
| Arbedion drwy newid arferion gwaith - Cludiant | -£30,000 | £0 | £0 |
| Arbedion drwy newid arferion gwaith - Cyflenwadau a Gwasanaethau | -£78,000 | £0 | £0 |

**ATODIAD 3**

**AMCANGYFRIF O GYLLIDEB REFENIW NET 2022/23 - 2024/25**

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyliideb Datganoledig Ysgolion** | | | | |
| Costau Cyflog Ysgolion | 34,597.96 | 35,517.98 | 36,409.59 | 37,278.59 |
| Costau Eraill Ysgolion | 8,030.36 | 8,212.74 | 8,403.15 | 8,598.14 |
| Addasiad Niferoedd Disgyblion | - | 121.52 | 82.39 | - 89.24 |
| **Cyfanswm Cyllideb Datganoledig Ysgolion** | **42,628.32** | **43,852.24** | **44,895.13** | **45,787.50** |
| | | | | |
| **Costau Gysylltiedig â Staff (Nad Ydynt yn Ysgolion)** | | | | |
| Costau Cyflog (Nad Ydynt yn Ysgolion) | 44,209.82 | 45,799.33 | 47,400.89 | 48,422.65 |
| Treuliau Staff | 606.48 | 519.48 | 519.48 | 519.48 |
| Cyfraniadau Pensiynau Ychwanegol | 1,867.09 | 1,887.88 | 1,909.10 | 1,930.74 |
| Costau Staff Eraill | 809.88 | 826.08 | 893.60 | 911.47 |
| Ardoll Prentisiaeth | 351.97 | 362.45 | 370.28 | 378.26 |
| **Cyfanswm Costau Gysylltiedig â Staff (Nad Ydynt yn Ysgolion)** | **47,845.24** | **49,395.22** | **51,093.35** | **52,162.61** |
| | | | | |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 5,462.96 | 5,572.22 | 5,683.66 | 5,797.33 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,338.36 | 1,217.91 | 1,217.91 | 1,217.91 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,558.66 | 4,649.83 | 4,742.83 | 4,837.69 |
| Prydau Ysgol | 2,348.61 | 2,089.58 | 2,131.37 | 2,174.00 |
| Cludiant Ysgol | 3,013.03 | 3,073.29 | 3,134.75 | 3,197.45 |
| Contractau Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus | 776.02 | 791.54 | 807.37 | 823.52 |
| Gwasanaethau ar y Cyd gydag Awdurdodau Lleol Eraill | 2,834.95 | 2,810.05 | 2,866.25 | 2,923.58 |
| **Cyfanswm Prif Gontractau'r Cyngor** | **20,332.59** | **20,204.42** | **20,584.15** | **20,971.47** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 5,595.36 | 6,266.80 | 6,517.47 | 6,778.17 |
| Gwasanaethau Oedolion | 19,683.99 | 22,153.86 | 22,789.05 | 23,442.71 |
| Lleoliadau All Sirol | 1,351.62 | 978.65 | 998.22 | 1,018.19 |
| Digartrefedd a Gwasanaethau Gysylltiedig â Tai | 230.81 | 308.56 | 319.18 | 330.18 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Arweinir gan y Galw** | **26,861.78** | **29,707.87** | **30,623.93** | **31,569.25** |
| | | | | |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| Yn Gysylltiedig â Safleoedd | 3,974.40 | 4,064.07 | 4,297.93 | 4,405.52 |
| Yn Gysylltiedig â Chludiant | 72.79 | 43.64 | 44.52 | 45.41 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,501.93 | 10,632.41 | 10,982.47 | 11,202.12 |
| Lwfansau Aelodau | 773.21 | 869.94 | 923.04 | 941.50 |
| Ardollau | 3,695.21 | 3,769.00 | 3,844.28 | 3,921.06 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6,289.80 | 6,792.98 | 6,826.95 | 6,861.08 |
| Adennill Costau Gwasanaethau Canolog gan y CRT | - 1,325.46 | - 1,362.71 | - 1,389.96 | - 1,417.76 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7,482.38 | 7,161.99 | 7,377.26 | 7,630.29 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **31,464.25** | **31,971.34** | **32,906.48** | **33,589.21** |
| | | | | |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau / Ad-dalu Cyrff Cynoeddus | - 6,189.95 | - 6,313.75 | - 6,440.03 | - 6,568.83 |
| Incwm Statudol | - 10,582.25 | - 10,793.90 | - 11,009.78 | - 11,229.97 |
| Incwm Anstatudol | - 5,804.47 | - 6,118.60 | - 6,302.16 | - 6,491.23 |
| **Cyfanswm Incwm** | **- 22,576.68** | **- 23,226.26** | **- 23,751.97** | **- 24,290.03** |
| | | | | |
| **Arian Wrth Gefn a Costau Unwaith ac am Byth** | **864.48** | **1,064.48** | **826.98** | **826.98** |
| | | | | |
| **Cynnydd Posibl i Gwrdd â Gofynion Gwasanaeth** | **-** | **1,017.72** | **-** | **-** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **147,419.97** | **153,987.03** | **157,178.05** | **160,617.00** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **27 MEDI 2021** |
| Pwnc: | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2021/22** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.GOV.UK |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau

1. Ar 9 Mawrth 2021, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2021/22 gyda swm net gwariant y gwasanaethau o £147.420m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.333m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng gan £0.121m i £1.514m. Defnyddiwyd £0.300m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i sicrhau bod cyllideb gytbwys wedi'i phennu gyda'r cynnydd o 2.75% yn y Dreth Gyngor y cytunwyd arno.

2. Yn wahanol i gyllidebau blynyddoedd blaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 3.4% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynnydd i'w groesawu. Ni fu'n bosib i Lywodraeth Cymru roi unrhyw arwydd o lefel arfaethedig y cyllid tu hwnt i 2021/22 oherwydd i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU gael ei ganslo yn sgil delio gyda'r pandemig Coronafeirws.

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2021. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd wedi'i chrynhoi. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol. Ar gyfer 2021/22, mae rhagweld sefyllfa derfynol diwedd y flwyddyn hyd yn oed yn anos gan nad yw'n glir o hyd pryd y bydd rhai o wasanaeth y Cyngor yn dychwelyd i normalrwydd a beth fydd y costau ychwanegol o ran darparu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o ledaeniad y feirws e.e. PPE ychwanegol, mwy o lanhau, llai o gapasiti gwasanaeth yn effeithio ar lefelau incwm.

4. Yn ystod y flwyddyn ariannol yma, gwnaed un cais i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r argyfwng Covid 19, am gyfanswm o £1.276m, ar gyfer gwariant ychwanegol a wnaed yn ystod chwarter 1, a derbyniwyd £0.746m. Datganodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ar gyfer yr incwm a gollwyd. Fodd bynnag, ni roddwyd ystyriaeth i hyn yn y rhagolwg. Bydd derbyn y cyllid ychwanegol yma'n gwella sefyllfa derfynol rhai gwasanaethau o'i gymharu a'r rhagolwg yma.

5. Nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried pwysau'r gaeaf. Yn hanesyddol, gellir gweld pwysau'r gaeaf o fewn y gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gall fod yn anodd mesur hyd a lled y costau ychwanegol y gellid eu hysgwyddo mor gynnar yn y flwyddyn ariannol. Nodir hyd a lled y rhagolygon a'r costau yn adroddiadau chwarter 3 a chwarter 4 yn y drefn honno.

6. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamecenir ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £2.540m. Mae hyn yn cyfateb i 1.73% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**7.** Argymhellir y dylid:-

- **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled incwm a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws;
- **(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
- **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni Buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH;
- **(iv)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

## Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'r adroddiad at ddibenion monitro yn unig ac fe'i defnyddir ynghyd ag adroddiadau eraill i bennu'r strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth bennu'r gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys yn cael ei hasesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2021/22 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae’r UDA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 6 Medi 2021 ac mae’r sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Mae’r Swyddog Monitro yn aelod o’r UDA |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 1 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 9 Medi 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2021/22
- Atodiad B – Tabl o’r Alldro Dros Dro ar gyfer 2021/22
- Atodiad C – Crynodeb o’r Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2021/22
- Atodiad CH – Adolygiad o’r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22
- Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2021/22
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2021/22

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2021/22 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2021 a’i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2021).

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £14.080m a chronfeydd wrth gefn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £4.015m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2020/21 at falans cyffredinol a oedd yn £11.593m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2019/20, lle gwelwyd y balans cyffredinol yn sefyll ar £7.060m. Cyfrannodd y tanwariant drafft o £4.204m at hyn a symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd eu hangen mwyach. Fodd bynnag, gall hyn newid yn sgil unrhyw addasiadau a wneir ar ôl archwilio'r cyfrifon.

Mae sefyllfa bresennol y balansau Cyffredinol fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | (11.593) | Cronfa wrth gefn gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2021. |
| Atgyweiriadau Harbwr Amlwch | 0.050 | Penderfyniad dirprwyedig a wnaed gan y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio – Cyllid. |
| Trosglwyddiadau i Mewn o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig sydd ddim eu hangen | (0.643) | |
| **Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor** | **(12.186)** | **Fel y nodir uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwilio'r cyfrifon.** |

Oherwydd amseriad yr adroddiad hwn, gwnaed penderfyniadau pellach mewn perthynas â'r balansau Cyffredinol, gyda £1.376m yn cael ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021 i drosglwyddo cyllid i greu Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth ar gyfer adrannau.  Cafodd £1.500m hefyd ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Gorffennaf 2021 ar gyfer gwaith atgyweirio'r to yng Nghanolfan Addysg y Bont yn Llangefni. Felly, £9.310m yw balans y balansau cyffredinol ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn.

Yr alldro cyfredol a ragwelir ar gyfer 2021/22 yw tanwariant amcangyfrifedig o £2.540m. Os yw'r rhagolwg hon yn gywir, bydd Balans Cyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £11.850m erbyn diwedd y flwyddyn. O ystyried yr ansicrwydd presennol yn y galw am wasanaethau, mae'r Swyddog Adran 151 wedi argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r lefel arferol o 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net ac y byddai'n ddoeth i'r Cyngor ddal o leiaf £9m fel Balansau Cyffredinol ar gyfer 2021/22. Os mai lefel y tanwariant a ragwelir ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw'r sefyllfa alldro derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, yna bydd hyn yn gwella cydnerthedd ariannol y Cyngor hyd yn oed ymhellach.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £1.236m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2022. Amcangyfrifir tanwariant o £0.815m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir tan gyflawniad o £0.039m mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor safonol.  Fodd bynnag,  mae gwarged o £0.668m ar Bremiwm y Dreth Gyngor yn gwrthbwyso diffyg y Dreth Gyngor. Mae cyfanswm y rhagolwg refeniw presennol ar gyfer 2021/22 yn danwariant o £2.540m, sy'n cyfateb i 1.73% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch):-

**Tabl 1**

| | **(Tan)/Gorwariant £'000** |
|---|---|
| Dysgu | (592) |
| Oedolion | 438 |
| Gwasanaethau Plant | (324) |
| Gwastraff | (310) |
| Trawsnewid | (157) |
| Adnoddau | (103) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (153) |
| Cyllid Corfforaethol | (675) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg | 200 |
| Cyllid | (629) |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | (235) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau - gôr/(tan) wariant** | **2,540** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £4.015m, o gymharu â £197k ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, derbyniodd yr ysgolion grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth ar gyfer gwariant a gafwyd eisoes gan olygu na wariwyd eu cyllidebau craidd. Yn ogystal, derbyniwyd rhywfaint o gyllid grant ar yr amod ei fod yn cael ei wario yn 2021/22. Dros y flwyddyn ariannol yma, bydd ysgolion yn adfer o effaith y pandemig a rhagwelir bydd gostyngiad sylweddol ym malansau ysgolion erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22 wrth i adnoddau ychwanrgol gael eu cyfeirio i helpu disgyblion i ddal i fyny yn dilyn y cyfnodau roedd yr ysgolion ar gau.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £91k (14.81%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 1. Rhagwelir tanwariant o £592k (13.02%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Rhagwelir tanwariant o £217k ar ddarparu prydau ysgol. Dyfarnwyd contract newydd ar gost llai, a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2021. Bydd hyn yn arwain at danwariant, Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn y nifer sy'n dewis derbyn Prydau Ysgol am Ddim, gan arwain at gostau uwch. Mae'r contract prydau ysgol newydd wedi caniatáu i'r Awdurdod ostwng cost pryd ysgol o £2.50 i £2.20.

- Roedd llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol yn 2020/21 gan fod un ar ddeg o blant wedi gadael lleoliadau all-sirol (oherwydd iddynt droi'n 16 neu am eu bod wedi dychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn) a dim ond pedwar lleoliad newydd a gafwyd yn 2019/20. Rhagwelir tanwariant o £631k ar gyfer lleoliadau all-sirol. Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, gallai nifer y plant sydd angen lleoliadau all-sirol ddechrau codi, fydd yn cael effaith ar y tanwariant a ragwelir.

- Rhagwelir gorwariant o £55k ar y clwb gofal plant. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw a, gyda mwy o rieni yn gweithio gartref a rhai cyfyngiadau Covid yn parhau i fod ar waith, mae'r galw am y ddarpariaeth wedi gostwng.

#### 3.1.4 Diwylliant

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £232k (53,56%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, ac mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn danwariant o £32k (2.65%). Mae swyddi gwag yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a disgwylir iddynt arwain at danwariant o £71k erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae ymarfer recriwtio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i lenwi'r swyddi gwag yma. Ar hyn o bryd, ragwelir gorwariant o £24k ar gyfer yr Oriel o ganlyniad i incwm nas gwireddwyd. Mae'r gwasanaeth Archifau'n rhagweld gorwariant o £10k oherwydd nad ydynt yn gallu cynnig lle storio ar rent, gan fod cymaint o le yn cael ei ddefnyddio at ddibenion mewnol.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd tanwariant o £381k (6.56%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a ragwelir gorwariant o £438k (1.58%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagwelir gorwariant o £413k. Mae yna nifer o elfennau'n gor a thanwario yn y Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ar gyfer y gorwariant mwyaf yn ymwneud â gofal preswyl £91k a gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn £143k, a hynny ar ôl dyrannu £111k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth gofal cartref wedi gweld cynnydd yn y galw am y gwasanaeth ac, felly, hyd yn oed ar ôl dyrannu £259k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, rhagwelir gorwariant o £355k erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae yna swyddi gwag o fewn Asesu a Rheoli Gofal a fydd yn helpu i leihau'r gorwariant cyffredinol, a'r rhagolwg erbyn diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £90k.

- Anableddau Corfforol: Mae'r ddarpariaeth yn rhagweld gorwariant o £174k ar gyfer y flwyddyn – mae'r gorwariant mwyaf a ragwelir yn gysylltiedig â Gofal Preswyl £105k, sydd yn ganlyniad uniongyrchol i gleientiaid yn newid lleoliadau. Disgwylir gorwariant o £9k mewn Asesu a Rheoli Gofal a £17k ar Gyfarpar ac Addasiadau oherwydd y costau gofal 'maint cywir' newydd a Chymorth yn y Cartref. Bu cynnydd sylweddol yn y galw am Gymorth yn y Cartref yn ystod y 12 mis diwethaf ac, ar ôl dyrannu Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, rhagwelir gorwariant o £49k erbyn diwedd y flwyddyn.

- Anableddau Dysgu: Mae gorwariant o £326k ar gyfer y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £582k erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant o £169k ar ofal cartref, ac mae hynny ar ôl defnyddio swm o £170k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i gynyddu nifer y cleientiaid sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn hytrach na Gofal Cartref a gomisiynir. Rhagwelir gorwariant o £458k ar y ddarpariaeth byw â chymorth a llety arall, hyd yn oed ar ôl dyrannu £200k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i becyn gofal costus, tra bod tangyllido hanesyddol wedi cyfrannu at yr amrywiad sylweddol hwn hefyd. Roedd cynlluniau i roi'r ddarpariaeth hon ar dendr yn 2020/21, gyda'r nod o gynhyrchu arbedion sylweddol, ond gohiriwyd y broses dendro oherwydd y Pandemig Covid.

- Iechyd Meddwl: Roedd gorwariant o £12k yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Serch hynny, rhagwelir gorwariant o £159k erbyn diwedd y flwyddyn – disgwylir £238k o orwariant ar Ofal Preswyl, a hynny ar ôl derbyn Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac, unwaith eto, mae'n ymwneud â nifer fechan o leoliadau costus. Rhagwelir gorwariant o £72k ar Fyw â Chymorth erbyn diwedd y flwyddyn, yn ymwneud yn bennaf â chostau lleoliadau i oedolion. Fodd bynnag, mae swyddi gwag o hyd yn y gwasanaeth Cymorth Cymunedol a disgwylir tanwariant o £120k ar ddiwedd y flwyddyn.

- Uned Ddarparu a Rheoli a Chefnogaeth: Rhagwelir tanwariant o £672k yn y maes hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Y prif reswm am y tanwariant a ragwelir yn y maes hwn yw nifer o swyddi gwag a'r ffaith na fu cyfleusterau gofal dydd ar agor oherwydd cyfyngiadau Covid. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol i gydgordio'r gyllideb rhwng yr Uned Ddarparu a'r Gwasanaethau Comisiynu.

**3.3 Gwasanaethau Plant**

**3.3.1** Roedd gorwariant o £1,036k (31.15%) yn y gwasanaeth ystod y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £324k (2.90%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.3.2** Roedd gorwariant o £221k yn y gyllideb Plant sy’n Derbyn Gofal hyd at gyfnod 3. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £103k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae’r ffigwr o £103k yn cynnwys tanwariant o £839k ar leoliadau All-sirol, ac mae hwn yn wasanaeth sy’n cael ei arwain gan y galw a gall fod yn hynod o ansefydlog. Mae gorwariant o £100k ar Leoliadau nad ydynt yn rhai Safonol, gorwariant o £241k ar leoliadau Gofal Maeth a £34k yn yr adain Fabwysiadu. Hefyd, rhagwelir y bydd Cartrefi Clyd yn gwario £363k gan na ddyrannwyd cyllideb ar gyfer y maes hwn hyd yma. Mae’r adain Gomisiynu a Gwaith Cymdeithasol yn rhagweld tanwariant o £194k o ganlyniad i gyllido staff o’r Gronfa Gofal Canolradd a swyddi gwag.

Rhagwelir tanwariant o £145k ar gymorth Integredig i Deuluoedd, yn bennaf oherwydd swyddi gwag. Mae gwasanaethau Ieuenctid hefyd yn rhagweld tanwariant o £50k sydd, unwaith eto’n gysylltiedig â staffio.

**3.4 Tai (Cronfa’r Cyngor)**

**3.4.1** Roedd tanwariant o £14k (3.05%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd cyfnod 3, a rhagwelir y bydd y sefyllfa’n gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y tanwariant mwyaf o £20k ar ddigartrefedd, ac atal digartrefedd sydd yn gysylltiedig â swyddi gwag.

**3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**3.5.1 Economaidd a’r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)**

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £352k (61.28%) yn y gwasanaeth am y cyfnod, ond rhagwelir gorwariant o £47k (2.40%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Disgwylir gorwariant o £23k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd y targed incwm ar gyfer gwaith ar brosiectau megis Wylfa Newydd a’r Grid Cenedlaethol. Heb y ffynonellau incwm hyn, ni chyflawnir yr incwm disgwyliedig yn y gyllideb. Y disgwyliad o ran incwm yw £72k. Disgwylir y bydd ailstrwythuro uwch reolwyr yn arwain at danwariant o £72k, a fydd yn gwneud yn iawn am yr incwm nas gyflawnir. Yr elfennau eraill yn yr adain sy’n creu pwysau yw cyfleusterau’r ganolfan, dylunio graffig a chyllidebau tanysgrifiadau sydd, gyda’i gilydd, yn debygol o gynhyrchu gorwariant o £28k.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £35k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae’r cyfyngiadau presennol ar deithiau tramor wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n treulio eu gwyliau yn y DU ac mae’r cyllidebau cyrchfan wedi elwa ar hynny. Mae’r atyniadau arfordirol yn brysurach nac erioed ac roedd targedau incwm Morwrol ar gyfer cofrestriadau a lansio badau wedi eu cyflawni erbyn diwedd Ch1. Mae’r rhan fwyaf o’r ffioedd hyn ar gyfer y tymor cyfan, ond disgwylir incwm o ffioedd lansio dyddiol yn ystod misoedd yr haf. Dylai ffioedd angori ddychwelyd i lefelau tebyg i’r hyn a welwyd cyn y pandemig, gan olygu efallai y rhagorir ar y targedau incwm Morwrol ar gyfer y flwyddyn. Rhagwelir gwarged o £10k. Mae cyllidebau wardeiniaid traeth tymhorol a chyllidebau cymorth yn tanwario, fel yn y gorffennol, a gellir disgwyl gwarged o £55k sydd yn debyg i’r hyn a welwyd y llynedd. Mae’r pwysau blynyddol ar dargedau incwm yn yr adain Cefn Gwlad yn debygol o godi’i ben eto ac mae ymgynghorwyr yn cynnal adolygiad o’r defnydd a wneir o’r Fenai hefyd. Gyda’i gilydd, gallai’r eitemau hyn arwain at orwariant o £30k.

**3.5.1.4** Mae’r adran Hamdden yn rhagweld gorwariant o £59k ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddarperir caffis yn y canolfannau hamdden bellach ond mae yna ddisgwyliadau o hyd o ran incwm. Mae’n anodd amcangyfrif yr alldro ar gyfer y canolfannau hamdden eu hunain, gan nad yw tueddiadau hanesyddol mor ddibynadwy oherwydd y pandemig Covid ac, oherwydd bod y canolfannau hamdden ar gau am gyfnod hir yn 2020/21. Bydd angen ystyried hyder y cyhoedd o ran defnyddio’r cyfleusterau a’r ffaith fod y Canolfannau’n gweithredu ar gapasiti llai yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn creu rhagolwg mwy cywir. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar gyfer incwm a gollir oherwydd Covid drwy’r Gronfa Galedi.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Mae tanwariant o £101k (22.99%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £37k (1.65%) ar alldro.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £52k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod a'r alldro a ragwelir yw tanwariant o £32k. Disgwylir diffyg o £33k yn y targedau incwm ar gyfer rheoli cŵn a phla a diffyg o £5k mewn incwm marchnadoedd a ffeiriau. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £25k yn yr adain Drwyddedu oherwydd bod derbyniadau trwyddedu'n uwch na'r gyllideb, a thanwariant o £42k yn yr adain Iechyd yr Amgylchedd oherwydd materion staffio.

**3.5.2.3** Mae tanwariant o £49k yn yr adain Gynllunio ar ddiwedd y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £5k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £5k yn yr adain Rheoli Adeiladu oherwydd eu perfformiad incwm. Fodd bynnag, disgwylir sefyllfa gytbwys ym mhob un o'r adeiniau eraill ar ddiwedd y flwyddyn.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £221k (15.70%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £93k (1.48%) erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r adeiniau yn y gwasanaeth Priffyrdd yn tanwario erbyn diwedd y flwyddyn. Y rhai mwyaf nodedig yw Cymorth Adrannol £40k, sydd yn codi oherwydd arbedion mewn costau staff, disgwylir y bydd incwm gwaith stryd yn gorgyflawni gan £80k yn erbyn y gyllideb incwm. Mae rheoli datblygu wedi perfformio'n well na'r disgwyliadau o ran incwm ac, felly, rhagwelir tanwariant o £60k ar gyfer y ddarpariaeth. Mae Cludiant Cymunedol Môn hefyd yn rhagweld £50k o danwariant. Mae hyn oherwydd bod llai o alw am y gwasanaeth yn dilyn y pandemig Covid a'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, disgwylir y bydd gorwariant o £50k yn y gyllideb gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'r rhagolwg yn cynnwys costau cynnal a chadw y gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragweld y costau hyn. Gallai unrhyw gostau sylweddol yn ystod y gaeaf waethygu'r alldro a ragwelir yn ystod y chwarter hwn, er cedwir cronfa wrth gefn clustondedig i liniaru'r risg petai'r costau'n codi'n sylweddol yn ystod y gaeaf. Rhagwelir, hefyd, y bydd incwm Meysydd Parcio £50k yn uwch na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £322k (22.30%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £310k (3.54%) ar alldro.

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gorwariant a thanwariant i wneud yn iawn am hynny mewn gwahanol rannau o'r adran. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £200k ar Gasglu Gwastraff, sy'n cynnwys costau contract casglu gwastraff newydd. Hyd yma, mae incwm casglu gwastraff gwyrdd £245k yn uwch na'r targed, ac mae cyfran o'r incwm hwn yn cyllido dwy swydd. Disgwylir tanwariant yn yr adain Ail-gychu ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i gyflawni incwm uwch na'r targed.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £49k (8.32%), ond rhagwelir sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn (0%).

**3.6.3.2** Mae'r sefyllfa ar gyfer nifer o benawdau cyllideb yn amrywio, gyda rhai'n dangos sefyllfa o orwariant, tra bo eraill yn tanwario. Mae swyddi gweigion o fewn y Gwasanaeth o gymorth i gynnal rhagolwg o sefyllfa gytbwys.

### 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £407k yn y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £25k (6.48%) yn y swyddogaeth AD am y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £89k (6.46%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant a ragwelir yn deillio o gyllidebau hyfforddi canolog.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £417k (31.14%) yn yr adain TGCh am y cyfnod a disgwylir sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, heblaw am ysgolion, wedi cael eu canoli ac maent yn cael eu rheoli bellach gan yr adain TGCh. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £142k yn y gyllideb meddalwedd ganolog erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £177k ar staffio a thrwyddedau meddalwedd.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £35k (20.53%) yn yr adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod a disgwylir tanwariant o £157k (18.08%) ar ddiwedd y flwyddyn, oherwydd arbedion ar gostau cyflogau o fewn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Chyswllt Môn, ynghyd â thanwariant o £91k ar gyfer Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

### 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant o £92k (10.49%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod a'r ffigwr alldro a ragwelir yw tanwariant o £103k (3.18%).

**3.8.2** Rhagwelir gorwariant o £31k yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau yn deillio o faterion staff a'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth i ddelio hefo ôl-groniad o waith o fewn y tîm Dreth Gyngor. Rhagwelir gorwariant bach o £3k ar gyfer y tîm Cyfrifeg. Disgwylir tanwariant o £110k yn yr Adain Caffael oherwydd cynlluniau pwrcasu, h.y. cyllidebau pwrcasu canolog ac ad-daliadau ar gardiau caffael, yn ogystal a galw llai am fathau arbennig o wariant a ddaw o dan y cyllidebau caffael canolog o ganlyniad i gynnydd yng ngweithio o adra (papur, llungopiwyr, deunydd swyddfa, dodrefn).

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £47k (10.67%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £29k (1.70%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £43k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd y defnydd o staff asiantaeth Cyfreithiol i gyflenwi ar gyfer swyddi gweigion/absenoldebau staff. Rhagwelir y bydd pob un o swyddogaethau'r Gwasanaethau Democrataidd yn tanwario, gyda'r tanwariant mwyaf yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£14k) oherwydd arbedion ar dreuliau staff a'r defnydd o ymgynghorwyr.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £5k (0.53%) yn y swyddogaeth am y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £153k (5.08%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Rhagwelir tanwariant o £26k ar Gymorth i Aelodau a Threuliau Aelodau. Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi arwain at danwariant sylweddol ar y cyllidebau teithio a hyfforddi a chynadleddau.

**3.10.3** Yn gyffredinol, mae'r cyllidebau corfforaethol yn dangos tanwariant o £97k. Maent yn cynnwys tanwariant o £90k ar ffioedd archwilio grantiau a £41k yn gysylltiedig â thaliadau pensiwn hanesyddol i'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae gorwariant o £20k ar Gwnsela Staff, nid oes cyllideb ar gyfer y gwariant hwn. Disgwylir y bydd cyfraniadau pensiwn eilaidd £36k yn uwch nag a ragwelwyd. Mae meysydd amrywiol eraill yn tan a gorwario o fewn y penawdau yn y gyllideb ar gyfer yr adain hon sy'n gwrthbwyso ei gilydd.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £19k (11.91%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £60k (9.44%) ar alldro. Mae'r tanwariant yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol yn dilyn ailstrwythuro rheolwyr yn 2019/20 a mân danwariant ar gludiant a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnws Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd, danwario £675k ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roeddent yn dod i gyfanswm o £1,333k. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Gwelir crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn yn Atodiad C ac mae'n dangos bod £17k eisoes wedi ei drosglwyddo i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys 3 elfen: y swm a neilltuwyd i dalu ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a llog a dderbynnir ar falansau arian parod a ddelir yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Gostyngodd oedi mewn prosiectau cyfalaf, yn enwedig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ofyniad benthyca'r Cyngor sydd, yn ei dro, wedi arwain at gostau DRI a llog is. Yn ystod y pandemig, cynhaliodd y Cyngor falans arian parod uwch na'r arfer, er bod enillion buddsoddi yn isel iawn (ar gyfartaledd yn llai na 0.2% yn ystod y flwyddyn). O ganlyniad, rhagwelir y bydd y gyllideb Cyllido Cyfalaf yn tanwario i'r swm o £649k.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Pennir cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a osodwyd yn Nhachwedd 2020. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gesglir o'r blynyddoedd blaenorol, addasiadau i'r rhwymedigaethau yn codi o'r blynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl, trosglwyddiadau i drethi busnes ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth y flwyddyn gyfredol nac am ddarpariaeth am ddyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrifo'r newidiadau yma ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y blanas terfynol ar y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn ogystal, mae Covid 19 yn cael effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor a gwaned cynnydd yn y ddarpariaeth drwg ddyledion i adlewyrchu'r effaith yma. Rhagwelir bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £39k yn is na'r gyllideb.

**5.2** Mae premiwm y Dreth Gyngor wedi'i gynllunio i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo'n ôl i ddefnydd cyffredinol ac, o'r herwydd, mae yna risg gall y nifer o eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg, gosodir sylfaen y dreth ar gyfer eiddo premiwm ar 80% ac, os nad yw niferoedd yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna ceir gwarged ar y gyllideb. Eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr trethi domestig i'r un Trethi Busnes, wedi gostwng y premiwm taladwy ar ail gartrefi ond, er gwaethaf trosglwyddo'r eiddo, yn gyffredinol mae'r niferoedd o eiddo ail gartrefi wedi parhau'n eithaf cyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £668k ar y gyllideb premiwm y dreth gyngor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2021/22

**6.1** Nid oedd angen unrhyw Arbedion Cyllidebol gan y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

## 7. Buddsodd i Arbed

**7.1** Rhoddwyd rhaglen fuddsoddi i arbed ar waith yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Mae £858k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at, ac yn cynnwys, 2021/22. Mae'r holl brosiectau wedi datblygu i wahanol raddau, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill, er bod y pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar gynnydd y prosiectau hyn. Gellir gweld manylion llawn am wariant a chynnydd pob prosiect yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2022/23 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael yn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £243k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £57k yn gysylltiedig â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £65k ar weithwyr safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad D.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £133k ar wasanaethau Ymgynghori yn ystod y cyfnod o Ebrill i Fehefin 2021, gyda £67k yn cael ei gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth, gyda manylion ychwanegol am y gwariant, i'w weld yn Atodiad DD.

## 9 Cyllid Grant Covid 19 Llywodraeth Cymru hyd yma

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws a cholli incwm, a byddai'r alldro'n orwariant sylweddol hebddynt. Mae Tabl 2 isod yn dangos bod y Cyngor wedi hawlio £0.930m am gostau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae £0.746m eisoes wedi'i dalu i'r Cyngor, gan adael balans o £0.184m yn weddill a fydd yn cael ei dalu yn ystod 2021/22.

**Tabl 2 Gwariant sy'n gysylltiedig â Covid 19 Ebrill i Mehefin 2021 a gyllidir gan Lywodraeth Cymru**

| | Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | Marwolaethau Gormodol | Prydau Ysgol am Ddim | Cyffredinol | Digartrefedd | TTP | Gofal Plant | Glanhau Ysgolion | Profi mewn Cartrefi Gofal | TG / Gweithio yn y Cartref | Hunan-Ynysu | Plant | Ychwanegiad SSP | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Hawllwyd | 417,682 | - | 42,913 | 138,111 | 11,164 | - | - | 41,423 | 71,780 | - | 64,486 | 140,810 | 1,528 | 929,899 |
| Gwrthodwyd | | | | | | | | | | | | | | - |
| **Balans Dyledus** | **417,682** | **-** | **42,913** | **138,111** | **11,164** | **-** | **-** | **41,423** | **71,780** | **-** | **64,486** | | **1,528** | **929,899** |
| Talwyd | 542,985 | - | - | 55,232 | 3,485 | - | - | 16,060 | 70,763 | - | 56,986 | - | 914 - | 746,425 |
| **Balans yn weddill** | **- 125,303** | **-** | **42,913** | **82,879** | **7,679** | **-** | **-** | **25,363** | **1,017** | **-** | **7,500** | | **614** | **183,474** |

**9.2** Colli incwm oherwydd Cyfyngiadau Covid 19 a Gyllidir gan Lywodraeth Cymru

Er bod llacio'r cyfnod clo wedi dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd, mae incwm y Cyngor wedi'i effeithio'n sylweddol, megis cau'r canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd parcio ceir. Mae perygl hefyd y bydd cyfyngiadau pellach i helpu i leihau'r broses o drosglwyddo Covid-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Mae'r Cyngor y flwyddyn ariannol hon wedi hawlio -£0.015m gan Lywodraeth Cymru. Dangosir crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 30 Mehefin 2021 isod yn Nhabl 3:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Incwm Gwasanaethau a Gollwyd yn ystod y Pandemig**

| Crynodeb | Amgueddfeydd £'000 | Hamdden £'000 | Addysg £'000 | Meysydd Parcio £'000 | Gwarchod y Cyhoedd £'000 | Marchnadoedd a Chlybiau Teithio £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 34.8 | 234.00 | -325.00 | 34.0 | 6.20 | 1.10 | -14.90 |
| Ni chaniatawyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans yn Ddyledus** | **34.8** | **234.00** | **-325.00** | **34.0** | **6.20** | **1.10** | **-14.90** |
| Talwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans yn Weddill** | **34.8** | **234.00** | **-325.00** | **34.00** | **6.20** | **1.10** | **-14.90** |

## 10 Casgliad

**10.1** Y rhagolwg cychwynnol ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw y bydd tanwariant o £2.540m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022. Disgwylir tanwariant o £1.286m ar gyllidebau gwasanaeth a rhagwelir tanwariant o £0.675m ar gyllid corfforaethol hefyd. Disgwylir y bydd y Dreth Gyngor safonol £0.039m yn is na'r disgwyl. Rhagwelir gwarged o £0.668m ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion dan bwysau oherwydd cynnydd yn y galw a phontio o leoliad costus o Gwasanaethau Plant. Y patrwm arferol yw bod y sefyllfa alldro terfynol yn well na'r hyn a amcangyfrifir yn ystod y chwarter cyntaf, fodd bynnag, pe byddai'r gorwariant a ragwelir yn cael ei wireddu, byddai'n cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor, a fyddai'n cynyddu i £9.961m.

**10.2** Mae angen gwaith pellach i fodelu'r effaith a chyflwynir Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol diwygiedig i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, cyn dechrau'r broses o osod cyllideb 2022/23.

**<u>Alldro Refeniw a Ragwelir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021- Chwarter 1</u>**

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth**<br>***Service/Function*** | **2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2021/22 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date** | **2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend** | **2021/22 Ch1 Amrywiad Q1 Variance** | **2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)** | **2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **2020/21 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(underspend)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **<u>Dysgu Gydol Oes</u>**<br>***<u>Lifelong Learning</u>*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 49,061 | 9,217 | 9,217 | (0) | 0.00% | 49,061 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog<br>*Central Education* | 4,545 | 614 | 523 | (91) | -14.81% | 3,953 | (592) | -13.02% | (1,338) |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,208 | 433 | 200 | (232) | -53.56% | 1,176 | (32) | -2.65% | (172) |
| | | | | | | | | | |
| **<u>Gwasanaethau Oedolion</u>**<br>***<u>Adult Services</u>*** | 27,732 | 5,803 | 6,184 | 381 | 6.56% | 28,170 | 438 | 1.58% | (178) |
| | | | | | | | | | |
| **<u>Gwasanaethau Plant</u>**<br>***<u>Children's Services</u>*** | 11,179 | 3,326 | 4,361 | 1,036 | 31.15% | 10,855 | (324) | -2.90% | (718) |
| | | | | | | | | | |
| **<u>Tai</u>**<br>***<u>Housing</u>*** | 1,247 | 465 | 450 | (14) | -3.05% | 1,247 | 0 | 0.00% | (37) |
| | | | | | | | | | |
| **<u>Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo</u>**<br>***<u>Highways, Waste & Property</u>*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 6,294 | 1,408 | 1,629 | 221 | 15.70% | 6,201 | (93) | -1.48% | (80) |
| Eiddo<br>*Property* | 985 | (587) | (635) | (49) | 8.32% | 985 | 0 | 0.00% | (100) |
| Gwastraff<br>*Waste* | 8,757 | 1,446 | 1,123 | (322) | -22.30% | 8,447 | (310) | -3.54% | (423) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2020/21 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 1,955 | 574 | 222 | (352) | -61.28% | 2,002 | 47 | 2.40% | (132) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,247 | 440 | 340 | (101) | -22.99% | 2,210 | (37) | -1.65% | (224) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,379 | 383 | 408 | 25 | 6.48% | 1,290 | (89) | -6.46% | (196) |
| TGCh<br>*ICT* | 3,200 | 1,340 | 1,757 | 417 | 31.14% | 3,200 | 0 | 0.00% | (87) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 869 | 170 | 135 | (35) | -20.53% | 712 | (157) | -18.08% | (187) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 3,236 | 878 | 970 | 92 | 10.49% | 3,133 | (103) | -3.18% | (166) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 1,708 | 439 | 392 | (47) | -10.67% | 1,737 | 29 | 1.70% | (83) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 3,010 | 1,004 | 1,009 | 5 | 0.53% | 2,857 | (153) | -5.08% | 62 |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 636 | 158 | 139 | (19) | -11.91% | 576 | (60) | -9.44% | (47) |
| Costau heb gyllideb, costau na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion/amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs/impairment allowances on services income* | | | | | | 200 | 200 | 0.00% | (54) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2020/21 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau<br>Total Service Budgets** | 129,248 | 27,511 | 28,425 | 916 | 3.33% | 128,012 | (1,236) | -0.96% | (4,160) |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| Ardollau<br>*Levies* | 3,695 | 3,652 | 3,693 | 41 | 1.12% | 3,695 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 96 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 70 | (26) | 21.86% | 8 |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 7,482 | 145 | 150 | 6 | 0.00% | 6,834 | (649) | -8.67% | (105) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 1,033 | 1,333 | 0 | (1,333) | -100.00% | 1,033 | 0 | 0.00% | (270) |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (700) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (700) | 0 | 0.00% | (192) |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,265 | (767) | (767) | 0 | 0.00% | 6,265 | 0 | 2.27% | (68) |
| Na ellir ei reoli<br>*Uncontrollable* | | | | | | | | | 249 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol<br>*Total Corporate Finance*** | 17,872 | 4,364 | 3,077 | (1,287) | -29.49% | 17,057 | (675) | -4.56% | (378) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2020/21<br>*Total 2020/21*** | **147,120** | **31,875** | **31,502** | **(371)** | **-1.16%** | **145,209** | **(1,911)** | **-1.30%** | **(4,538)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido<br>*Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NNDR* | (23,480) | (7,480) | (7,480) | 0 | 0.00% | (23,480) | 0 | 0.00% | 0 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2021/22 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2020/21 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (40,902) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (40,863) | 39 | -0.10% | 333 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (1,393) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,061) | (668) | -47.97% | 0 |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (81,345) | (23,596) | (23,596) | 0 | 0.00% | (81,345) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2020/21**<br>***Total Funding 2020/21*** | **(147,120)** | **(31,076)** | **(31,076)** | **0** | **0** | **(147,749)** | **(629)** | **-0.43%** | **333** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn including impact of funding*** | **0** | **798** | **426** | **(371)** | **-46.50%** | **(2,540)** | **(2,540)** | **-173%** | **(4,205)** |

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro y Cyllidebau wrth Gefn 2021/22**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 388,928 | - 17,000 | 371,928 | - | 371,928 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 150,000 | | 150,000 | - | 150,000 | - |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 794,500 | | 794,500 | - | 794,500 | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,333,428** | **-17,000** | **1,316,428** | **-** | **1,316,428** | **-** |

**Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22**

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheolaeth Perthynas Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system rheolaeth perthynas cwsmer | 255,000 | 46,676 | 0 | 46,676 | Mae'r CRM yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth gyda rhan 2 o'r grantiau cymorth busnes yn cael eu gweinyddu drwy'r system yn ogystal â system archebu ar gyfer mynychu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae'r CRM wedi cael ei integreiddio â'r llinell o system fusnes a ddefnyddir gan y contractwr a benodir i'r contract casglu gwastraff ar gyfer yr Awdurdod ac mae'n fyw. Mae gwaith wedi cychwyn ar brosesau busnes Priffyrdd, fel yr enwebwyd gan y Bwrdd Trawsnewid. Mae gwiriad synnwyr a thwtio cyffredinol o ffurflenni cyfredol yn parhau i'w cael eu cynnal. |
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth taliadau fel y gellir talu drwy'r ap. | 27,000 | 13,583 | 0 | 13,583 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomatig newydd | 118,000 | 5,687 | 137 | 5,550 | Mae gwaith profi mewnol yn parhau i fynd rhagddo er mwyn dileu gwallau system, mewn darpariaeth i'r dyddiad 'mynd yn fyw' ym mis Tachwedd ar gyfer Enterprise 5.30. Cwblhawyd y gwaith ar ddad-ddyblygu data o fewn Salesforce ac fe'i hanfonir ymlaen i Arcus i ddiweddaru'r basdata. Efallai bydd angen rhediad pellach oherwydd yr amser ers yr echdyniad gwreiddiol (gohiriwyd hyn am dros 12 mis oherwydd y pandemig). Mae'r gwaith hefyd yn parhau ar alluogi'r modiwl TPO yn Salesforce. Er mwyn cynorthwyo'r Tîm Busnes a Systemau i ateb a delio â galwadau ffôn cyffredinol cyhoeddus wrth weithio gartref, prynwyd a defnyddiwyd clustffonau bluetooth. |
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau casglu incwm newydd (ApMôn ayb) gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 36,843 | 32,898 | 3,945 | Mae'r gyllideb bellach wedi ei hymrwymo'n llawn ac o fewn cyllidebau'r bid. Ailddechreuodd y gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 yn dilyn diwedd cyfnod ffyrlo rhai swyddogion prosiect Capita, ond dim ond yn Chwarter 3 y cododd momentwm. Mae gwaith profi'r ffeil allforio GL newydd y gellid ei wneud o bell bron wedi'i gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi na ellir ei wneud o bell. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoni incwm/e-ddychweliadau awtomatig, sy'n cynnwys prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn symud ymlaen drwy ddatblygu "API's" i alluogi diweddariad incwm awtomatig i'r lejer drwy'r system rheoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis hamdden, addysg a phriffyrdd, ac allanol ar gyfer AGP. Bydd y gwaith gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid-19 wedi gohirio gweithredu a gwasanaethau mewnol yn ail-dendro rhai prosesau meddalwedd penodol. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Addysg | Gweithredu modiwlau nad oedd yn cael eu defnyddio o fewn y system rheoli gwybodaeth ONE | 67,000 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Oriel Môn | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 20,000 | 11,474 | 0 | 11,474 | Mae'r gwaith ar y prosiect yma wedi ei gwblhau a disgwylir yn awr yr anfonebau terfynol. |
| TG / Trawnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 30,280 | 18,470 | 11,810 | Mae dau o bobl wedi eu recriwitio i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro ar Raddfa 5 ac maent yn eu swyddi ar hyn o bryd. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwella Cysylltiad Digidol o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system gwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r meddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi ei chaffael gytuned fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 mlynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | Dim cynnydd i'w adrodd. Oherwydd Covid-19 a phwysau ar Gwarchod y Cyhoedd, ni fu unrhyw allu i fwrw ymlaen. Fe argymhellir fod y cyllid yma'n cael ei ddychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **982,800** | **154,543** | **51,505** | **138,038** | |

**Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2021**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 11,533 | Grant | Dros Dro | Methu recriwitio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig ar gyfer samplo bwyd |
| | 16,045 | Grant | Dros Dro | Capasiti |
| | **27,578** | | | |
| Ysgolion | 1,869 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | 878 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw |
| | **2,747** | | | |
| Gwastraff | 64,736 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Staff tymor byr - dim ar gael drwy matrics AD |
| | **64,736** | | | |
| Eiddo | 1,389 | Cronfa Wrth Gefn | Dros Dro | Prisio ar gyfer cyfrifon 2020/21 |
| | **1,389** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 56,946 | Cyllideb Craidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi wag |
| | **56,946** | | | |
| | 12,711 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swyddi wag |
| | **12,711** | | | |
| Trawsnewid | 8,099 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Mamolaeth |
| | 4,651 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Secondiad staff i gefnogi Prosiect HWB |
| | 6,456 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Swydd Technegydd GIS Wag - angen i gynnal Safon Ansawdd Data |
| | **19,207** | | | |
| **Cyfanswm** | **243,314** | | | |

**ATODIAD DD**

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 2021/22**

| **Gwasanaeth** | **Chrtr 1 £** | **Cyfanswm 2021/22 £** |
|---|---|---|
| Addysg Canolog | 0 | **0** |
| Diwylliant | 58,100 | **58,100** |
| Economaidd ac Adfywio | 36,124 | **36,124** |
| Eiddo | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 16,000 | **16,000** |
| Ysgolion | 3,135 | **3,135** |
| Gwastraff | 12,137 | **12,137** |
| CRT | (10,250) | **(10,250)** |
| Tai | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,451 | **3,451** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | **0** |
| Corfforaethol | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 4,260 | **4,260** |
| Busnes y Cyngor | 0 | **0** |
| Adnoddau | 9,565 | **9,565** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **132,521** | **132,521** |
| Arianwyd gan: | | |
| Cyllideb Craidd | 65,648 | **65,648** |
| Grant | 65,495 | **65,495** |
| Cyfraniad Allanol | 1,379 | **1,379** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **132,521** | **132,521** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 MEDI 2021** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CHWARTER CYNTAF 2021/22 - CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn chwarter 1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r UDA wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn ariannu buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Ganolradd, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn destun ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.** | Mae elfennau o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldebau e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2021/22
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Cyllideb Gyfalaf 2021/22, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021; ac
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 21 Mehefin 2021.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro’r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac mae’n caniatáu i Aelodau nodi’r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £15.842m ar gyfer 2021/22, a Rhaglen Gyfalaf o £20.313m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.898m gael ei ddwyn ymlaen o 2020/21, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.492m, a £22.561m ar gyfer y CRT. Ers y broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, a gyda’r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grant, sef cyfanswm o £6.200m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i £54.253m.

## 2. CYNNYDD GWARIANT YN 2021/22

**2.1** Isod mae tabl sy’n crynhoi’r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2021, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2021 a’r cyllid arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirionedd ol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,276 | 96 | 96 | - | 96 | 100 | 8 |
| CRT Tai | 22,561 | 2,383 | 2,051 | 67 | 2,118 | 89 | 9 |
| Dysgu Gydol Oes | 11,761 | 574 | 463 | 112 | 575 | 100 | 5 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,663 | 362 | 71 | 241 | 312 | 86 | 6 |
| Priffyrdd | 6,382 | 376 | 166 | 86 | 252 | 67 | 4 |
| Rheoli Gwastraff | 2,276 | 2,272 | 2,201 | 71 | 2,272 | 100 | 100 |
| Eiddo | 1,275 | 90 | 93 | - | 93 | 103 | 7 |
| Trawsnewid | 614 | 125 | 3 | 118 | 121 | 96 | 20 |
| Cynllunio | 1,316 | 118 | 118 | 11 | 129 | 109 | 10 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,129 | 0 | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **54,253** | **6,396** | **5,262** | **706** | **5,969** | **93** | **11** |
| **Cyllidwyd gan:** | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 20,961 | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 463 | | | | | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,765 | | | | | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 4,697 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 17,887 | | | | | | |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,272 | | | | | | |
| Benthyciad | 208 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **54,253** | | | | | | |

**2.2** Hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf gwariwyd 96% o’r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 12% o’r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda’r rhan fwyaf o’r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi ei gwario, cynlluniau megis y Fflyd Gwastraff, gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, cynllun Chromebooks ar gyfer Addysg, Maes Chwarae Antur ym Mharc y Morglawdd, Cam 2 cynllun Penrhos a chynlluniau Porth Llangefni. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i’w gwario yn y chwarter nesaf neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Diogelwch ysgolion, ail-wynebu mannau chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi, Ystafell Ffitrwydd Amlwch, cynllun cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd, Cronfa Ffyrdd Cydnerth a mannau gwefru Cerbydau Trydan. Gellir gweld y cynlluniau hyn a’u proffil yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2021/22 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 89% o'r gyllideb a broffiliwyd a 9% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r anallu i baratoi cynlluniau yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd cyfyngiadau Covid wedi cael effaith ar y gallu i baratoi a chaffael contractau mewn modd amserol ac mae'n bosib y gwelir mwy o danwariant wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Mae effeithiau Covid yn parhau i gael effaith ar brosiectau adeiladu eiddo newydd a chynlluniau caffael eiddo. Y nod ar hyn o bryd yw prynu'n ôl 15 o hen dai Cyngor bob blwyddyn ond, ar hyn o bryd, rhagdybiaeth fwy rhesymol yw mai hanner y ffigwr hwn yn unig fydd yn cael eu prynu yn ystod 2021/22, a bydd hyn yn cael effaith ar y gyllideb. Gwelwyd cynnydd annisgwyl mewn prisiau eiddo hefyd, sy'n golygu bod y Cyngor yn llai cystadleuol oherwydd ein gwariant ar ailwampio ac adnewyddu'r eiddo hynny.

Mae oedi i'w weld o hyd ar safleoedd adeiladu newydd oherwydd Covid, yn arbennig mewn perthynas ag argaeledd rhai deunyddiau penodol a chyflenwadau. Mae'r sefyllfa'n newid yn gyson o ran oedi mewn deunyddiau a deunyddiau nad ydynt ar gael ac mae cyflenwyr yn codi prisiau oherwydd prinder. Mae hyn wedi arafu cynnydd y gwaith a gostwng gwariant. Fodd bynnag, mae prosiectau wedi bod yn mynd rhagddynt a bu iddynt wynebu oedi rhesymol yn unig o ran cwblhau'r gwaith.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** – Mae gwaith wedi dechrau ar y safle ar y cynllun olaf ym Mand A, sy'n canolbwyntio ar yr Ysgol Corn Hir Newydd. Mae gwaith dylunio'n mynd rhagddo ar gyfer y Prosiect cyntaf ym Mand B – Uned Cyfnod Sylfaen Newydd yn Ysgol y Graig. Paratowyd yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect hwn. Mae trafodaethau â'r perchennog tir yn mynd rhagddynt.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** – Sicrhawyd £3.581m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd i alluogi'r Cyngor i ddarparu digon o leoedd gofal plant i fodloni'r galw yn sgil y cynnig gofal plant (£3.194m) ac i gyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli'r Prosiect (£0.387m). Yn dilyn cwblhau Unedau newydd yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol y Tywyn, Ysgol Morswyn, Ysgol Pencarnisiog ac Ysgol Esceifiog, derbyniwyd tendrau yn ddiweddar ar gyfer y ddau gynllun nesaf, yn Ysgol Henblas ac Ysgol Gwalchmai. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y safleoedd hyn yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

- **Neuadd y Farchnad** – Mae'r daliwr prydles wedi cwblhau gwaith mewnol ar y swyddfeydd ar y llawr cyntaf a byddant yn cael eu meddiannu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae galw am yr ystafelloedd cyfarfod wedi cynyddu ac mae ymholiadau'n mynd rhagddynt. Rydym yn rhagweld y bydd mwy o ddiddordeb pan fydd rheoliadau Covid yn caniatáu eu defnyddio, wrth i hyder mewn gweithgareddau dan do gynyddu. Mae bron iawn 50% o'r gwaith cyfalaf olaf, a gefnogir gan grant allanol gan drydydd parti, wedi'i gwblhau er mwyn darparu storfa finiau, rheseli beiciau a chwblhau'r siop goffi ar y llawr gwaelod yn barod i'w gosod. Mae'r gwaith sy'n weddill, sy'n canolbwyntio ar baratoi ar gyfer gosod byrddau gwanhau sŵn a system awyru fecanyddol, ar y gweill. Mae'r gwaith sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn Ch2, a'r unig eitem gyfalaf sylweddol sy'n weddill ac a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol yw'r prif ddehongliad treftadaeth.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (MTT))** - Mae gwaith ar y prosiect trydydd parti wedi mynd rhagddo a dim ond mân ddiffygion sydd angen eu datrys ar hyn o bryd cyn y cwblhau ymarferol. Mae peth ansicrwydd o hyd mewn perthynas â chysylltiadau cyfleustodau gan na ragwelwyd natur y gwaith gan Wales & West a'r posibilrwydd o orfod cau'r ffordd, gan olygu y bydd angen 12 wythnos o rybudd. Mae hyn wedi arwain at oedi o ran meddiannu'r adeilad. Mae newidiadau a gadarnhawyd i gymorth grant Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer canol trefi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 ac wedi hynny wedi creu ansicrwydd o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar ôl cynnal trafodaethau mewnol, rydym yn archwilio opsiynau i ail-becynnu prosiectau amrywiol y MTT mewn un cyflwyniad strategol aml-flwyddyn (sydd yn adlewyrchu natur y MTT yn well fel rhaglen 3 i 5 mlynedd) a fydd yn cael ei ystyried gan LIC ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, bydd yr amserlen ar gyfer paratoi, cyflwyno a chymeradwyo yn arwain at oedi yn y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon gan olygu na fydd gwahanol elfennau o'r gwariant yn digwydd tan y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022/23.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau £1.146m o gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl caniatâd i ddechrau gan y NLHF yn chwarter 3 2019/20, ond cafodd y gwaith ei ohirio yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Derbyniwyd y caniatâd erbyn hyn. Derbyniwyd y Caniatâd i ddechrau gan NLHF yn chwarter 3 2020/21. Dechreuodd y Rheolwr Rhaglen a'r Swyddog Prosiect eu swyddi newydd ym mis Ionawr 2021 a recriwtiwyd y Cynorthwyydd Prosiect ym mis Mehefin 2021. Mae gweithgareddau yn ystod chwarter 1 wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfathrebu, codi proffil ar y cyfryngau cymdeithasol, datblygu cysylltiadau partneriaeth a dechrau'r broses gaffael ar gyfer chwech o'r prosiectau. Cyflwynwyd ailbroffil o'r cyllid i NLHF ac mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â'r angen am gyllid ychwanegol i ymestyn y prosiect i 2024/25.

- **Cynllun Hwb – Grant Isadeiledd Mewn Ysgolion** – Mae'r gwaith o osod yr elfennau isadeiledd sy'n weddill wedi'i gwblhau yng Nghanolfan Addysg y Bont ac Ysgol Syr Thomas Jones a threfnwyd i wneud y gwaith ar y safleoedd sy'n weddill yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn archeb dyfeisiau Blwyddyn 3 a bydd hyn yn cwblhau Ton 4 prynu dyfeisiau ar gyfer defnyddwyr. Disgwylir iddynt gael eu cyflenwi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

- **Porth Twristiaeth** - Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaid) Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido'n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae arwyddion cyfeirio yng Nghaergybi wedi'u cwblhau ac maent ar fin cael eu gosod. Yn ystod chwarter 3 2020/21 ymgymerwyd â threfniadau caffael ar gyfer dyluniadau manwl mewn perthynas â'r gwaith a drefnwyd ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi. Oherwydd na dderbyniwyd unrhyw gynigion, ail-wahoddwyd tendrau yn chwarter 4 2020/21, a phenodwyd Wood plc i symud ymlaen â'r prosiect. Bydd dyluniadau manwl yn cael eu creu yn ystod chwarter 1 2021/22, ac yna bydd cwmni adeiladu addas yn cael ei gaffael wedi hynny.

- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** – Cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy [Cyfalaf] ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Yn wreiddiol, dyfarnwyd £0.100m ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Er mwyn gwireddu'r dyluniad diwygiedig a graddfa'r prosiect, sicrhawyd swm pellach o £0.050m o Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22. Ar ôl derbyn caniatâd cynllunio ddechrau mis Mehefin 2021, dechreuodd y gwaith o osod yr offer a rhagwelir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.

- **Prosiect Penrhos – Cam 2 –** Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Yn ystod chwarter 1, mae'r cynlluniau a'r dyluniadau ar gyfer yr unedau wedi eu cymeradwyo'n llawn yn fewnol a bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno ar ddechrau chwarter 2. Rhoddwyd y contract ar dendr yn ystod y chwarter gyda'r contractwr yn cael ei benodi ac yn cychwyn gwaith ar y safle erbyn diwedd chwarter 1. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd dyddiad cwblhau'r prosiect ar ddiwedd chwarter 4 neu yn gynnar yn chwarter 1 2022/23.

- **Prosiect Porth Llangefni –** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd 7 o blotiau'n cael eu datblygu yn y pendraw.

    - **Unedau Porth (ERDF**) – Nod y prosiect yw adeiladu chwe uned fusnes newydd ar Blot 1 Parc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cyflwynwyd cais cynllunio yn ystod chwarter 1 a disgwylir penderfyniad ar y cais erbyn canol mis Gorffennaf. Cynhaliwyd proses gaffael, a'r dyddiad cau ar gyfer tendrau yw 2 Gorffennaf 2021. Rhagwelir y bydd gwaith adeiladu'n cychwyn yn gynnar ym mis Medi 2021 ac, ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2022.

    - **Cyd-fenter Porth** – Nod y Gyd-fenter Porth yw gwneud gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Mae'r gwaith yn cynnwys symud deunyddiau ar y safle a gwneud gwaith archeolegol. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y safle'n cael ei wneud yn ystod chwarter 2/3 2021/22.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** - Mae'r cynlluniau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, gwnaed cynnydd o ran datblygu cytundeb gwaith gyda Dŵr Cymru ac mae data modelu bellach wedi'i rannu i ganiatáu i'r astudiaeth ymchwilio'n gyfannol i'r peryglon llifogydd sy'n wynebu ein systemau ni a systemau Dŵr Cymru yn y dref. Yn Amlwch, mae angen gweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y gellir ystyried perygl llifogydd y prif afon yn yr astudiaeth. Bellach daethpwyd i ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn caniatáu rhannu manyleb ar gyfer gwaith modelu, a bydd hyn yn caniatáu i'r astudiaeth fynd yn ei blaen. Gallai'r ddwy astudiaeth hyn barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, o bosib, i flwyddyn ariannol 2022/23.

- **Mân Waith Grant (15 lleoliad) –** Rhaglennwyd y cynlluniau ac mae gwaith wedi dechrau ar rai ohonynt. Rhagwelir y bydd y cyfan wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gofyn o dan amodau'r grant).

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** – Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y safle yn ystod yr haf, gyda rhan o'r gwaith yn cael ei ohirio. Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu'r rhan a ohiriwyd. Nid yw'r gwaith adeiladu'n debygol o ddechrau tan 2022 ar y cynharaf.

- **Traeth Coch** – Mae gwaith Dylunio a Datblygu gan ymgynghorwyr ar y cynllun Risg Arfordir yn Nhraeth Coch yn mynd rhagddo. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn y chwarter nesa. Gwneir hyn yn rithiol, i weithio o fewn y cyfyngiadau presennol. Mae'r adborth yn cael ei goladu gan yr Ymgynghorwyr. Ar ôl i gyllid cyfatebol gael ei gymeradwyo, y nod yw y gallai'r gwaith ddechrau ym mis Mawrth 2022, yn ddibynnol ar yr hawliau gofynnol ar gyfer Gwaith Arfordirol, ac mae'r ceisiadau am hyn eisoes yn cael eu gwneud.

- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali** - Mae'r tri cynllun llifogydd yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynglŷn â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Llanfairpwll a rhagwelir y bydd angen rhagor o waith yma. Mae'n debygol y bydd Achos Busnes Llawn (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfairpwll yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae llai o risgiau canfyddedig yn gysylltiedig â'r cynlluniau ym Mhorthaethwy a'r Fali a rhagwelir y gallai'r Fali a Phorthaethwy fod yn barod ar gyfer gwaith adeiladu yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

- **Mill Lane – Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLIN)**– Sicrhawyd cyllid i gwblhau'r gwaith o adeiladu cynllun lliniaru llifogydd yn Mill Lane, Biwmares. Ar ôl ei gwblhau, bydd y cynllun lliniaru llifogydd hwn yn lleihau'r risg o lifogydd i 10 eiddo preswyl. Mae gwaith ar y strwythur yn Mill Lane yn tynnu tua'i derfyn (rhagwelir y bydd yn cael ei gomisiynu yn ystod mis Awst). Cwblhawyd cynlluniau cychwynnol ar gyfer ymyrraeth RLIN Mill Lane (dalgylch) ac mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r perchennog tir. Bydd y trafodaethau hyn yn holl bwysig gan na fydd modd rhoi'r mesurau RhLIN ar waith heb ddod i gytundeb â'r perchennog tir.
- **Cwrs Dŵr Cyffredin Dwyran – Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLIN)**– Sicrhawyd cyllid i ymgymryd â chynllun RhLIN ar gyfer cwrs dŵr cyffredin Dwyran. Bydd y gwaith hwn yn lleihau'r risg o lifogydd i 3 eiddo – mae trafodaethau â'r perchennog tir wedi arwain at oedi o ran gweithredu'r cynllun hwn. Gobeithir y bydd modd cwblhau'r trafodaethau'n fuan er mwyn caniatáu i'r gwaith ddechrau.
- **Galluogi** – Sicrhawyd grant o £0.103m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Cyllid Cyfalaf ar gyfer Diogelwch y Ffyrdd** – Sicrhawyd cyllid o £0.300m. Mae'r prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar yr A545, o Borthaethwy i Fiwmares. Ni fu unrhyw wariant yn chwarter 1, ond rhagwelir y bydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd Grant o £0.425m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i ddatblygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor (yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus), i ddatblygu a dylunio cynlluniau mawr (datblygiadau ymlaen llaw), ac ar gyfer mân welliannau i'r isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau ar draws aneddiadau Teithio Llesol Ynys Môn. Pwrpas y grant yw hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i'r gwaith, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae £0.100m yn benodol ar gyfer datblygu llwybr yn ardal Caergybi sydd yn rhan o gynllun Metro Gogledd Cymru LlC ac mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi cyhoeddi'r tendr ar Gytundeb Fframwaith Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer cefnogaeth ymgynghorol i ddatblygu a dylunio'r prosiect. Bydd dogfennau tendr ar gyfer gwaith datblygu ymlaen llaw mewn ardaloedd eraill yn dilyn unwaith y bydd penodiad cynllun Metro Gogledd Cymru wedi cael ei gadarnhau (i asesu llwybrau i'w caffael yn y dyfodol). Mae CSYM wedi dadansoddi cam cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â rhwystrau a gwelliannau i'r Rhwydwaith Teithio Llesol ac wedi paratoi Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft, sydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd (ail gam), ac mae'n gofyn i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar y llwybrau arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Mewn perthynas â mân waith, cynhaliwyd trafodaethau mewnol i gynllunio sgôp pob prosiect gwaith mân ynghyd â dyluniadau.
- **Cronfa Ffyrdd Cydnerth -** Pwrpas y gronfa yw galluogi cefnogi prosiectau trafnidiaeth sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd, ac yn addasu iddynt, gan gynnwys mynd i'r afael â tharfu ar y rhwydwaith priffyrdd oherwydd tywydd garw. Ffrwd cyllido grant newydd yw hon, a gyflwynwyd y llynedd, ar gyfer cynlluniau sy'n lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys mynd i'r afael â tharfu ar y rhwydwaith briffyrdd oherwydd tywydd garw. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid (£0.120m) o dan y grant hwn i astudio pa fesurau cydnerthedd y gellid eu gweithredu ar yr A545 a'r B5109 y naill ochr a'r llall i Fiwmares. Mae gan y ddwy ffordd hanes o gau ar gyfnodau o dywydd garw, a bydd mwy o stormydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Comisiynwyd WS Atkins Ltd gan yr Awdurdod yn 2020 i gynnal astudiaeth cydnerthedd camau 1 a 2 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Ar ôl cyhoeddi'r fersiwn derfynol, a chynnal trafodaethau â Changen Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn edrych ar gaffael ymgynghorwyr allanol i symud ymlaen â WelTAG cam 3 (dyluniad manwl) i'w gynnal yn 2021/22.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn –** Pwrpas y gronfa hon yw hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru. Sicrhawyd £0.164m ar gyfer cynnal astudiaeth dichonoldeb a dyluniad amlinellol a gosod un man gwefru cyflym iawn / cyflym ym mhob un o'r pum tref yn Ynys Môn (Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy, Biwmares). Cynhaliwyd trafodaethau gyda Scottish Power Energy Networks (SPEN) i asesu'r lleoliad gorau ar gyfer gosod y mannau gwefru ym mhob tref (mewn un o'r meysydd parcio ym mherchnogaeth y Cyngor neu'r Cyngor Tref). Mae SPEN yn ystyried yr opsiynau mwyaf cyflawnadwy.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma ynghyd â'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2021/22 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Mehefin-21 £'000 | Rhagolwg i 31-Mawrth-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 300 | 0 | 300 |
| Cyffredinol | 284 | 76 | 360 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 192 | 0 | 192 |
| **Cyfanswm** | **776** | **76** | **852** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £0.852m, a derbyniwyd £0.076m erbyn 30 Mehefin 2021 (9%).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £0.852m, mae £1.601m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £0.749m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2020/21 yn y Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.082m o'r cyllid hwn i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.519m arall ar gael i gyllido rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o cyllid cyfatebol a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2021/22

**4.1** Isod mae tabl gydag amcangyfrif o'r Gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2022 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 1,276 | 1,276 | 0 | 0 |
| CRT Tai | 22,561 | 16,268 | (6,293) | (28) |
| Dysgu Gydol Oes | 11,761 | 8,423 | (3,338) | (28) |
| Economaidd ac Adfywio | 5,663 | 4,401 | (1,262) | (22) |
| Priffyrdd | 6,382 | 5,190 | (1,192) | (19) |
| Rheoli Gwastraff | 2,276 | 2,276 | 0 | 0 |
| Eiddo | 1,275 | 1,275 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | 614 | 634 | 20 | 3 |
| Cynllunio | 1,316 | 762 | (554) | (42) |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,129 | 1,129 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **54,253** | **41,634** | **(12,619)** | **(23)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **Amrywiad %** |
| Grant Cyfalaf | 20,961 | 17,714 | (3,247) | (15) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 463 | 520 | 57 | 12 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 8,765 | 6,572 | (2,193) | (25) |
| Benthyca Digefnogaeth | 4,697 | 2,198 | (2,499) | (53) |
| Cyfraniad Refeniw | 17,887 | 13,594 | (4,293) | (24) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,272 | 828 | (444) | (35) |
| Benthyciad | 208 | 208 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **54,253** | **41,634** | **(12,619)** | **(23)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £12.619m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23. Y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, lle bu oedi oherwydd ymgynghori pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i wneud bellach ac mae gwaith adeiladau wedi dechrau yn chwarter 1 2021/22. Mae trafodaethau ar y gweill mewn perthynas â'r Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig ac efallai y ceir gwariant ychwanegol os bydd gwaith adeiladu'n cymryd lle yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir tanwariant hefyd ar addasiadau i'r anabl mewn adeiladau addysgol. Mae hyn oherwydd y cwblhawyd addasiadau ar gyfer yr anabl ym mhob ysgol namyn un. Gohiriwyd gwaith yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill er mwyn derbyn canlyniad yr astudiaethau dichonoldeb. Mae gwaith mewn ysgolion cynradd yn cael ei gwblhau pryd a phan fydd angen. Rhagwelir tanwariant ar y cynlluniau Economaidd a Phriffyrdd oherwydd bod y gwaith yn pontio dwy flwyddyn ariannol, gyda pheth o'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Bydd y cyllid hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y disgrifir uchod, ac ni chollir unrhyw gyllid.

Rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT hefyd, fel yr eglurir ym mharagraff 2.3 uchod.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £142.000m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae benthyca allanol yn £125.034m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthyca £16.966m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthyca hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu Cerbydau bob blwyddyn, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu'r asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ailwynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllideb, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 1 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd rhagddi wedi iddi gael ei gohirio, ac mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar y cynllun Band A. Mae trafodaethau pellach ar y gweill mewn perthynas â'r cynllun Band B ac, felly, mae'n rhaid disgwyl am ganlyniad y trafodaethau hynny cyn y gellir dechrau gwaith adeiladu. Felly, mae risg o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae Covid yn parhau i gael effaith ar gynlluniau cyfalaf a chyflymder y gwaith, a hynny am nifer o resymau, ac yn barod disgwylir y bydd llithriad mewn nifer o'r cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £0.852m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 600,000 | 60,000 | 59,017 | 0 | 59,017 | (983) | 98 | 10 | 600,000 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 492,977 | 30,000 | 31,217 | 0 | 31,217 | 1,217 | 104 | 6 | 492,977 | 0 | 0 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 50,000 | 5,000 | 5,147 | 0 | 5,147 | 147 | 103 | 10 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 102,520 | 1,000 | 872 | 0 | 872 | (128) | 87 | 1 | 102,520 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,276,147** | **96,000** | **96,253** | **0** | **96,253** | **253** | **100** | **8** | **1,276,147** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 157,773 | 157,773 | 100 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 504,709 | 504,749 | 1,014 | 505,763 | 1,054 | 100 | 11 | 4,725,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 0 | 0 | 1,899 | 1,899 | 1,899 | 0 | 0 | 400,000 | (600,000) | (60) |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 1,730 | 1,730 | 0 | 1,730 | (0) | 0 | 0 | 880,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 13,005,797 | 1,723,806 | 1,334,455 | 10,492 | 1,344,947 | (378,859) | 78 | 10 | 7,750,425 | (5,255,372) | (40) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 48,640 | 31,692 | 53,635 | 85,327 | 36,687 | 175 | 24 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 450,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,750,000 | 104,557 | 178,174 | 0 | 178,174 | 73,617 | 170 | 10 | 1,154,557 | (595,443) | (34) |
| **CYFANSWM** | **22,560,797** | **2,383,442** | **2,050,800** | **67,039** | **2,117,840** | **(265,602)** | **89** | **9** | **16,267,755** | **(6,293,042)** | **(28)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 400,000 | 10,000 | 6,086 | 4,329 | 10,415 | 415 | 104 | 3 | 100,000 | (300,000) | (75) |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,418,803 | 5,000 | 4,794 | 0 | 4,794 | (206) | 96 | 0 | 2,418,803 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 10,000 | 1,737 | 12,000 | 13,737 | 3,737 | 137 | 7 | 200,000 | 0 | 0 |
| Dymchwel ysgolion | 33,150 | 101,295 | 101,295 | 0 | 101,295 | 0 | 100 | 306 | 101,295 | 68,145 | 206 |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 112,732 | 2,500 | 2,532 | 0 | 2,532 | 32 | 101 | 2 | 112,732 | 0 | 0 |
| Chromebooks Addysg | 305,000 | 305,000 | 304,917 | 0 | 304,917 | (83) | 100 | 100 | 305,000 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 128,000 | 5,500 | 5,660 | 0 | 5,660 | 160 | 103 | 4 | 128,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant) | 89,515 | 13,000 | 13,241 | 0 | 13,241 | 241 | 102 | 15 | 89,515 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 1,173,901 | 1,500 | 1,015 | 643 | 1,658 | 158 | 111 | 0 | 523,416 | (650,485) | (55) |
| Cwblhau'r Rhaglen Band A | 5,077,000 | 20,000 | 1,624 | 17,211 | 18,835 | (1,165) | 94 | 0 | 3,719,560 | (1,357,440) | (27) |
| Cwblhau'r Rhaglen Band B | 1,523,000 | 100,000 | 20,316 | 78,022 | 98,338 | (1,662) | 98 | 6 | 425,000 | (1,098,000) | (72) |
| **CYFANSWM** | **11,761,101** | **573,795** | **463,216** | **112,204** | **575,421** | **1,626** | **100** | **5** | **8,423,321** | **(3,337,780)** | **(28)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 198,722 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 198,722 | 0 | 0 |
| Cae Chwarare 3G Caergybi | 150,000 | 8,000 | 7,955 | 0 | 7,955 | (45) | 99 | 5 | 150,000 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 70,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 70,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 1,340,000 | 70,000 | 0 | 27,458 | 27,458 | (42,542) | 39 | 2 | 700,000 | (640,000) | (48) |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 84,663 | 35,000 | 33,879 | 0 | 33,879 | (1,121) | 97 | 40 | 84,663 | 0 | 0 |
| Penrhos - Cam 2 | 1,107,000 | 5,000 | 4,865 | 0 | 4,865 | (135) | 97 | 0 | 929,000 | (178,000) | (16) |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 5,565 | 150 | 137 | 0 | 137 | (13) | 92 | 2 | 5,565 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 179,150 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 179,150 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Ailddatblygu Safle Ysgol TRIP | 7,222 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 7,222 | 0 | 0 |
| Unedau Porth (ERDF) | 1,709,000 | 40,000 | 17,451 | 20,515 | 37,966 | (2,034) | 95 | 2 | 1,290,000 | (419,000) | (25) |
| Cyd-fenter Safle Porth | 276,000 | 20,000 | 5,955 | 12,630 | 18,586 | (1,414) | 93 | 7 | 251,000 | (25,000) | (9) |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Cerbyd Cyfoeth Naturiol Cymru | 14,261 | 14,261 | 0 | 14,261 | 14,261 | 0 | 100 | 100 | 14,261 | 0 | 0 |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | 305,000 | 20,000 | 0 | 20,161 | 20,161 | 161 | 101 | 7 | 305,000 | 0 | 0 |
| Grant AHNE - Cerbyd Trydan | 26,121 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 26,121 | 0 | 0 |
| Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 150,000 | 150,000 | 915 | 146,230 | 147,145 | (2,855) | 98 | 98 | 150,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **5,662,768** | **362,412** | **71,158** | **241,256** | **312,414** | **(49,997)** | **86** | **6** | **4,400,768** | **(1,262,000)** | **(22)** |

## ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 20,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 20,068 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 354,194 | 60,500 | 0 | 60,574 | 60,574 | 74 | 100 | 17 | 354,194 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,593,307 | 199,905 | 67,171 | 0 | 67,171 | (132,734) | 34 | 4 | 1,593,307 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 596,381 | 39,966 | 40,069 | 0 | 40,069 | 103 | 100 | 7 | 596,381 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 479,669 | 500 | 518 | 5,156 | 5,674 | 5,174 | 1,135 | 1 | 70,000 | (409,669) | (85) |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 28,049 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (28,049) | (100) |
| Lliniaru Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 32,291 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 32,291 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 52,144 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 40,000 | (12,144) | (23) |
| Cynllun Llifogydd Traeth Coch | 74,153 | 1,800 | 1,804 | 0 | 1,804 | 4 | 100 | 2 | 50,000 | (24,153) | (33) |
| Cynllun Llifogydd Llanfairpwll | 399,647 | 1,000 | 651 | 0 | 651 | (349) | 65 | 0 | 40,000 | (359,647) | (90) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 156,177 | 15,000 | 2,170 | 13,000 | 15,170 | 170 | 101 | 10 | 70,000 | (86,177) | (55) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 98,316 | 6,000 | 2,072 | 3,789 | 5,861 | (139) | 98 | 6 | 60,000 | (38,316) | (39) |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 135,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 135,000 | 0 | 0 |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 225,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (225,000) | (100) |
| Strwythur Mill Lane | 89,097 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 80,000 | (9,097) | (10) |
| Dwyran - Rheoli Llifogydd yn Naturiol - Cwrs Dŵr Cyffredinol | 188,553 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 188,553 | 0 | 0 |
| Mill Lane - Rheoli Llifogydd yn Naturiol | 243,960 | 1,000 | 1,036 | 0 | 1,036 | 36 | 104 | 0 | 243,960 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 31,987 | 25,000 | 25,069 | 0 | 25,069 | 69 | 100 | 78 | 31,987 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 574,745 | 2,000 | 2,305 | 3,000 | 5,305 | 3,305 | 265 | 1 | 574,745 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 425,000 | 20,000 | 20,376 | 0 | 20,376 | 376 | 102 | 5 | 425,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 786 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 786 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 120,000 | 1,000 | 651 | 0 | 651 | (349) | 65 | 1 | 120,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan | 164,000 | 2,000 | 1,823 | 0 | 1,823 | (177) | 91 | 1 | 164,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6,382,524** | **375,672** | **165,716** | **85,518** | **251,234** | **(124,438)** | **67** | **4** | **5,190,272** | **(1,192,252)** | **(19)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwastraff | 2,198,779 | 2,198,327 | 2,198,327 | 0 | 2,198,327 | 0 | 100 | 100 | 2,198,327 | (452) | (0) |
| Cyllid Economi Cylchol (266) | 64,093 | 64,093 | 0 | 64,093 | 64,093 | 0 | 100 | 100 | 64,093 | 0 | 0 |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 13,175 | 9,739 | 3,000 | 6,739 | 9,739 | 0 | 100 | 74 | 13,175 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **2,276,047** | **2,272,159** | **2,201,327** | **70,832** | **2,272,159** | **0** | **100** | **100** | **2,275,595** | **(452)** | **(0)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 854,953 | 80,000 | 85,569 | 0 | 85,569 | 5,569 | 107 | 10 | 854,953 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 207,662 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 100 | 2 | 207,662 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 211,357 | 5,000 | 2,227 | 0 | 2,227 | (2,773) | 0 | 1 | 211,357 | 0 | 0 |
| Fferm Cromlech | 920 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 920 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,274,892** | **90,000** | **92,796** | **0** | **92,796** | **2,796** | **103** | **7** | **1,274,892** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 418,466 | 5,000 | 0 | 4,814 | 4,814 | (186) | 96 | 1 | 418,466 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 122,193 | 70,000 | 3,000 | 65,649 | 68,649 | (1,351) | 98 | 56 | 122,193 | 0 | 0 |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 23,244 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 23,244 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 19,964 | 0 | 0 |
| Hwb Isadeiledd TGCh | 30,000 | 50,000 | 199 | 47,934 | 48,133 | (1,867) | 0 | 160 | 50,000 | 20,000 | 67 |
| **CYFANSWM** | **613,867** | **125,000** | **3,199** | **118,397** | **121,596** | **(3,404)** | **97** | **20** | **633,867** | **20,000** | **3** |

## ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hwb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 262,404 | 3,000 | 2,246 | 0 | 2,246 | (754) | 75 | 1 | 262,404 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 353,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (353,300) | (100) |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 700,000 | 115,000 | 115,734 | 11,211 | 126,945 | 11,945 | 110 | 18 | 500,000 | (200,000) | (29) |
| **CYFANSWM** | **1,315,704** | **118,000** | **117,980** | **11,211** | **129,191** | **11,191** | **109** | **10** | **762,404** | **(553,300)** | **(42)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Canolradd | 994,246 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 994,246 | 0 | 0 |
| Hwb cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 37,978 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 83,371 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,128,750** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(0)** | **0** | **0** | **1,128,750** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **54,252,597** | **6,396,480** | **5,262,445** | **706,458** | **5,968,904** | **(427,577)** | **93** | **11** | **41,633,771** | **(12,618,826)** | **(23)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 MEDI 2021** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB CRT, CHWARTER 1 2021/22** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2021/22.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.

**2. Cefndir**

**(i)** Dengys yr adroddiad hwn gyllideb sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8.8m.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 oedd £22.6m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2020/21. Roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2.7m) a benthyca (£2m).

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £9.1m, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cyllid yn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer chwarter 1 yn dangos gorwariant o £18k, sydd yn agos iawn at y gyllideb a broffiliwyd. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad. A.

**(ii)** Mae'r gwariant Cyfalaf £266k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £6,293k yn is na'r gyllideb, fel yr esbonir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £4,906k, £4,209k yn llai na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £49k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent £47k yn is na'r gyllideb. Adolygwyd y rhagolwg oherwydd yr oedi wrth ychwanegu eiddo newydd i'r portffolio o eiddo gweithredol, ac mae'r rhagolwg yn dangos gostyngiad o £149k.

**(iii)** Mae incwm o daliadau gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol, £8k yn well na'r gyllideb.

**(iv)** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro, ond dylai'r ddarpariaeth fod yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn.

**(v)** Mae'r rhagolwg cyffredinol ar gyfer incwm bellach yn ostyngiad o £149k o gymharu â'r gyllideb wreiddiol, erbyn diwedd y flwyddyn.

**6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £96k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Effeithiau Covid sy'n bennaf gyfrifol am hyn, oherwydd bod staff wedi cael eu hadleoli, gan olygu bod gwaith arall, megis diwrnodau glanhau, wedi cael ei ganslo. Adolygwyd y rhagolwg, a bellach mae'n dangos tanwariant er mwyn rhoi ystyriaeth i lai o waith gan y tîm Cyfranogiad Tenantiaid.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae gorwariant o £14k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai. Nid oes newid yn y swm a ragwelir ar hyn o bryd.

**(ii)** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r Uned Cynnal a Chadw Tai £34k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1. Mae problemau recriwtio staff yn y maes hwn, felly'r rhagolwg erbyn diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £35k.

**(iii)** Mae gorwariant o £84k ar gostau Trwsio a Chynnal a Chadw arall o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur tymhorol gwaith cynnal a chadw tiroedd, ond mae'r contract blynyddol wedi'i hymrwymo'n llawn, felly, rhagwelir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn werth cyfanswm o £20,313k, a oedd yn cael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,674k) a chyfraniad o £17,639k o gronfa wrth gefn y CRT. Nid oedd hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen cyfalaf 2019/20, a oedd yn dod i gyfanswm o £2,248k, gyda £2,000k ohono'n cael ei gyllido drwy fenthyca. Cyfanswm y gyllideb yw £22,561k, wedi'i gyllido gan y Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,674k), benthyca (£2,000k) a chyfraniad o £17,887k o'r gronfa wrth gefn refeniw. Ar sail y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol bellach yn £13,594k, sef £4,293k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig.

**(ii)** Mae effeithiau'r pandemig Covid yn parhau i gael eu teimlo, yn arbennig wrth greu oedi yn y gallu i gaffael hen dai Cyngor (mae'r cynnydd ym mhrisiau tai wedi gostwng y cyflenwad o dai sy'n cael eu gwerthu am bris yr ystyrir ei fod yn cynnig gwerth am arian), ac oedi yn y rhaglen adeiladu eiddo newydd oherwydd oedi a phrinder deunyddiau.

**(iii)** Dygwyd cyfran o'r gwariant ar adnewyddu rhai o gerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai o 2022/23, ac mae cynnydd o £158k yn y rhagolwg oherwydd hynny.

**(iv)** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod gostyngiad tebyg yn y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido'r prosiectau a ohiriwyd tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £9,742k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £9,116k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn arwain at ostyngiad o ddim ond £4,906k yn y balans. Rhydd hyn falans o £4,835k yn y gronfa wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â'r swyddog fel aelod o'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd chwarter 1.<br>Atodiad B - Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 1. | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2020/50 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2021). | | |

| | | | | | | ATODIAD A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***CYFRIF CRT 2021/22*** | | | | | | |
| | **Cyllideb Flynyddol 2021/22** | **Cyllideb a Broffiliwyd hyd at Fis 3** | **Gwirioneddol hyd at Fis 3** | **Amrywiant hyd at Fis 3** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (19,167,000) | (4,791,751) | (4,744,841) | 46,910 | (19,018,000) | 149,000 |
| Modurdai | (220,000) | (55,000) | (54,770) | 230 | (220,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (216,000) | (54,000) | (61,496) | (7,496) | (216,000) | 0 |
| Arall | (203,000) | (32,376) | (22,679) | 9,697 | (203,000) | 0 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 292,000 | 0 | 0 | 0 | 292,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,514,000)** | **(4,933,127)** | **(4,883,786)** | **49,341** | **(19,365,000)** | **149,000** |
| **Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 248,820 | 62,202 | 32,005 | (30,197) | 218,820 | (30,000) |
| Gweinyddu Rhenti | 497,573 | 124,226 | 121,407 | (2,819) | 497,573 | 0 |
| Rheoli Stadau | 176,911 | 44,158 | 38,907 | (5,251) | 176,911 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 958,339 | 217,801 | 160,363 | (57,438) | 958,339 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,881,643** | **448,387** | **352,682** | **(95,705)** | **1,851,643** | **(30,000)** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai | 3,143,119 | 848,777 | 863,101 | 14,324 | 3,143,119 | 0 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 935,282 | 233,488 | 199,799 | (33,689) | 900,282 | (35,000) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 662,572 | 165,652 | 249,335 | 83,683 | 662,572 | 0 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,740,973** | **1,247,917** | **1,312,235** | **64,318** | **4,705,973** | **(35,000)** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 2,518,000 | 0 | 0 | 0 | 2,518,000 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 790,630 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 811,780 | 0 | 0 | 0 | 811,780 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,120,410** | **0** | **0** | **0** | **4,120,410** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,743,026** | **1,696,304** | **1,664,917** | **(31,887)** | **10,678,026** | **(65,000)** |
| | | | | | | |

| | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Cyllideb a Broffiliwyd hyd at Fis 3 | Gwirionedd ol hyd at Fis 3 | Amrywiant hyd at Fis 3 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,770,974)** | **(3,236,823)** | **(3,218,869)** | **17,954** | **(8,686,974)** | **84,000** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2021/22 | 22,560,797 | 2,383,442 | 2,117,840 | (265,602) | 16,267,755 | (6,293,042) |
| | | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,674,000) | 0 | 0 | 0 | (2,674,000) | 0 |
| Grantiau / Benthyciadau Eraill | (2,000,000) | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,000,000 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **17,886,797** | **2,383,442** | **2,117,840** | **(265,602)** | **13,593,755** | **(4,293,042)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **9,115,823** | **(853,381)** | **(1,101,029)** | **(247,648)** | **4,906,781** | **(4,209,042)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (9,742,000) | | | | (9,742,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 9,115,823 | | | | 4,906,781 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(626,177)** | | | | **(4,835,219)** | |
| | | | | | | |

**ATODIAD B**



| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad yn erbyn y Proffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tanwariant / Gorwariant a Ragwelir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 504,709 | 505,763 | 1,054 | 4,725,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 0 | 1,899 | 1,899 | 400,000 | (600,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 1,730 | 1,730 | 0 | 880,000 | 0 |
| Caffael Eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 13,005,797 | 1,723,806 | 1,344,947 | (378,859) | 7,750,425 | (5,255,372) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 48,640 | 85,327 | 36,687 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 0 | 0 | 450,000 | 0 |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru | 1,750,000 | 104,557 | 178,174 | 73,617 | 1,154,557 | (595,443) |
| Cerbydau yr Uned Cynnal a Chadw Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 157,773 | 157,773 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **22,560,797** | **2,383,442** | **2,117,840** | **(265,602)** | **16,267,755** | **(6,293,042)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 27 Medi 2021 |
| **Pwnc / Testun:** | Diweddariad o’r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Aelod Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts,  Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards<br>Dirprwy Reolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i bob Aelod. |

**A –Argymhelliad a rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**Cefndir – Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd a wnaed ers cyfarfod diwethaf , ar ddraws yr Adran Oedolion a Plant a Theuleoedd.

Er bod ein gwaith yn cael ei flaenoriaethu i roi sylw i ofynion statudol, rydym hefyd yn alinio ein hymdrechioner mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r blaenoriaethau corfforaethol fel y'u rhestrir yng Nghynllun y Cyngor. Yr amcan perthnasol ar gyfer ein gwasanaethau yw:

Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w cadw'n Ddiogel, yn Iach ac mor Annibynnol â phosib

**Cefndir – Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd ers cyfarfod cychwynnol o’r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd.

Er bod ein gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar sail gofynion statudol, rydym hefyd yn sicrhau bod ein hymdrechion yn gyson â’r blaenoriaethau corfforaethol fel y'u rhestrir yng Nghynllun y Cyngor. Yr amcanion perthnasol ar gyfer ein gwasanaethau yw:

**Amcan 2:** Cefnogi Oedolion a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac mor Annibynnol â phosibl

**1. Diweddariad Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:**

**i) Cynyddu'r nifer y Gofalwyr Maeth Awdurdod Lleol -**

Ar hyn o bryd, mae gennym 108 o unigolion sydd wedi cofrestru fel gofalwyr maeth gyda CSYM, yn cynnwys:

- 36 o gartrefi maeth prif lif
- 28 o gartrefi maeth personau cysylltiedig

Yn ystod 2020/21

- 9 o gartrefi maeth prif lif (cyffredinol) wedi'u cymeradwyo
- 12 cartref person cysylltiedig (teulu a ffrindiau) wedi'u cymeradwyo

Mae hyn wedi galluogi nifer uwch o blant i aros ar Ynys Môn a pharhau yn rhan o'u teuluoedd estynedig a chymunedau lleol. Rydym hefyd wedi gallu cymeradwyo nifer bychan o leoliadau Maeth Arbenigol h.y. lleoliadau Mam a Phlentyn ac eto bydd hyn yn osgoi'r angen i deuluoedd gael eu lleoli y tu allan i'r Sir ar gyfer asesiadau arbenigol a chefnogaeth.

Y targed recriwtio ar gyfer 2021/22 yw gallu cymeradwyo 6 lleolaid prif lif ac mae'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 4 yn bositif gyda :-

- 4 asesiad prif lif ar y gweill
- 1 cais prif lif yn disgwyl asesiad (Cam 1)
- Disgwyl 1 cais pellach

Mae yna recriwtio rhanbarthol wedi'i dargedu pellach wedi'i drefnu ar gyfer 2021/22 ac o ganlyniad i dwf diweddar y gwasanaeth, mae capasiti gwaith cymdeithasol ychwangeol wedi'i gytuno, gan fynd â'r FTE i 4.75 Gweithiwr Cymdeithasol a'r swydd ychwanegol o Weithiwr Maethu Cefnogol.

Mae swyddi yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ac mae recriwtio yn parhau.

Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i adolygu strwythur y Tîm a'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar draws yr ynys.

**ii) Agor ein 'Cartrefi Clyd' cyntaf:**

Gweithio tuag at ein cartrefi o fath teulu ar yr ynys a fydd yn galluogi i blant y gofelir amdanynt o Ynys Môn dderbyn gofal ar yr ynys, mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol yn hytrach na chael eu lleoli mewn lleoliad pellach i ffwrdd o'r gymuned leol y gymuned y maent wedi arfer â hi.

Mae ein dau gartref cyntaf bellach yn llawn ac wedi'u staffio'n llawn, gyda pherson ifanc yn ein heiddo un ystafell wely a dau blentyn yn yr ail gartref.

Mae'r trydydd eiddo, a fydd yn darparu seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, wedi ei gwblhau ac mae cofrestriad wedi ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y pedwerydd eiddo yn adlewyrchu model ein dau gartref gofal bychan arall ar gyfer Plant y Gofelir Amdanynt.

iii) Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc

Mae'r prosiect hwn ar y cyd rhwng *Action for Children*, a Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Môn, wedi arwain at ddatblygiad cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc, fel rhan o

fenter gan Lywodraeth Cymru. Mae cardiau wedi cael eu dylunio ac yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd.

Cyflwyniad Gofalwyr Ifanc a Cer

Gwynedd and Anglesey Young Car

iv) Diweddariad Cynllun Cymunedau Gwydn

Cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn modd trawsnewidiol.

Mae'r Grant Trawsnewid wedi ei gyflwyno'n swyddogol yng Ngwynedd a Môn. Canllawiau a'r Ffurflen Gais wedi'u cynhyrchu ar gyfer Grant Trawsnewid. Maent eisoes wedi derbyn nifer o ymholiadau ac felly'n obeithiol y bydd rhai ceisiadau da ar y gweill. Mae'r prosiectau yn cael eu monitro gan Medrwn Môn a Mantraeth Gwynedd.

Mae grantiau o hyd at £5000 ar gael. Bydd yn rhaid i geisiadau gwrdd ag o leiaf un o nodau ac amcanion y gronfa:
. Gweithgareddau Cymunedol
. Chwarae Strwythuredig
. Cefnogaeth i rieni a phlant yn dilyn effaith Covid 19

Cyn belled ag y mae'r Tîm Trawsnewid yn y cwestiwn, mae nifer o rolau wedi'u llenwi, gan gynnwys Arweinydd Ymarfer, Seicolegydd ac ati a bydd y gweddill yn cael eu cyfweld ddechrau mis Medi.

**2) Diweddariad Gwasanaethau Oedolion:**

**i) Parhau i weithio ar gynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd yn Ne'r Ynys -**

Mae'r safle Gofal Ychwanegol newydd wedi'i adnabod. Mae'r gwaith wedi dechrau i gynllunio ar gyfer yr adeiladu a'r ddarpariaeth. Mae'r achos busnes yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Unwaith bydd yr achos busnes wedi ei gwblhau ac wedi'i gymeradwyo bydd yr adran dai yn penodi tîm o ddylunwyr i ddatblygu'r prosiect ymhellach. Mae cyfraniad gan ICF wedi ei ddyrannu ar gyfer cyfanswm y gost adeiladu ar gyfer 2021/22

**ii) Datblygu'r rhaglen Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia gyda'u gofalwyr ynghyd â dylunio Strategaeth Dementia sydd yn unol â Chynllun Dementia Llywodraeth Cymru -**

Mae'r Gwasanaeth wedi leihau oherwydd y sefyllfa COVID-19, ac oherwydd gostyngiad yn

y cyllid ICF. Un swyddog ar gyfer Gwynedd a Môn. Tra bod y prosiect wedi ymestyn i gynnwys Oedolion hŷn ynghyd â chleientiaid â Dementia. Rydym yn gobeithio y byddwn ni'n gallu ailddechrau'r gwasanaeth cyn gynted ag y bydd rheoliadau COVID yn caniatáu.

Disgwylir i adolygiad o'r prosiect gael ei gynnal ym mis Rhagfyr, i ystyried a fydd y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei adolygu ai peidio.

**iii) Datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn y gymuned -**

Mae'r sefyllfa yn parhau i fod yr un fath oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ac wrth i gyfyngiadau gael eu codi byddwn yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd a'r gweithgareddau. Mae sesiynau cefnogaeth unigol wedi ailddechrau ar gyfer rhai unigolion.

**iv) Sefydlu 3 Thîm Adnoddau Cymunedol, sydd wedi'u lleoli yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a fydd yn dod â Staff y Cyngor a Betsi Cadwaladr at ei gilydd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted â phosibl-**

Wedi ymgymryd â gwaith i sefydlu tri Thîm Adnoddau Cymunedol (CRT) yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi eu dynodi i'w CRT priodol yn y tair ardal.

Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn o ran datblygiad y Prototeip WCCIS ar yr Ynys. Mae'n brosiect ar y cyd gyda Thîm Cymunedol BCUHB, ac rydym wedi mapio allan arferion gwaith presennol ar draws pob un o'r meysydd gwaith, ac yn y broses o gytuno a datblygu egwyddorion gwaith ar y cyd newydd a fydd yn cael eu cynnwys yn y WCCIS er mwyn fod pob gweithiwr yn medru cael mynediad at y wybodaeth cleientiaid fwyaf diweddar. Bydd y gwaith hwn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth yr achos busnes WCCIS gan BCUHB, sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy eu prosesau mewnol. Rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ddechrau adeiladu'r system i gwrdd ag anghenion y Timau Adnoddau Cymunedol erbyn diwedd mis Medi.

**Ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr ar y Strategaeth cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Oedolion fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel ar gyfer uniogolion a'u cymunedau-**

Mae'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Oedolion ar waith, fodd bynnag ni fydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar ddatblygiad ystod ehangach o gyfleoedd dyddiau o answadd uchel ar gyfer unigolion a'u cymunedau yn cael ei gynnal tan Gwanwyn 2022. Yn y cyfamser, mae opsiynau cymunedol yn cael eu harchwilio ar draws yr Ynys.

### 3) Diweddariad Pandemig COVID-19 y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd:

***Mae'r sefyllfa yn parhau'r un fath ag yn ein diweddariad ym mis Chwefror 2021:***
Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd yr ydym ni'n gweithio ers diwedd Chwefror 2020, gyda chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol wedi eu rhoi ar waith gan ddilyn canllawiau cenedlaethol ac oherwydd effaith COVID-19 yng nghanol Mawrth 2020:

- Cyflwr y pwerau a'r cyllidebau brys a ddefnyddir
- Mae'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng yn parhau, wrth reoli busnes fel arfer, ac yn paratoi ar gyfer y cyfnodau pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio a'r adferiad
- Adroddiadau Sefyllfa Dyddiol a Wythnosol yn cael eu paratoi i grynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Cyfathrebu rheolaidd yn fewnol ag Aelodau a staff ac yn allanol drwy wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor
- Adolygu cofrestr risg COVID-19 ffurfiol a'i diweddaru'n wythnosol

Defnyddio pwerau dirprwyedig brys sy'n galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau hanfodol. Arweiniodd hyn at y mwyafrif o Staff y Cyngor yn gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl, cau adeilad ein Cyngor ar gyfer ymwelwyr, cau ein canolfannau anableddau dysgu dydd, cau ein cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i ymwelwyr nad ydynt yn hanfodol a gostyngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod y cyfnod parhaus o gyfyngiadau symud rydym wedi parhau i:

- Parhau i gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol;
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), Iechyd Cyhoeddus Cymru, BIPBC, Darparwyr a chydweithwyr o fewn Tîm Cydnerthedd Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill;
- Sefydlu storfa Cyfarpar Diogelu Personol i reoli danfoniadau Cyfarpar gan Lywodraeth Cymru, wedi'i reoli o fewn ein hadnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i gyfnod y pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau, adolygiadau, gan sicrhau bod ein dyletswyddau diogelu'n cael eu cyflawni.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth Awdurdodau Lleol.

### 4) Canfyddiadau Adolygiad Sicrwydd Awdurdod Lleol Arolygiaeth Gofal

**Cymru (AGC)**

Yn dilyn ein harolygiad gan AGC rhwng 14eg - 18fed o Fehefin 2021, rydym wedi derbyn y canfyddiadau canlynol mewn llythyr gan y Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol.

CIW - Isle of Anglesey County Co

AGC- Cyngor Sir Ynys Mon - Archwili

Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn fuan.

5) **Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd er yr heriau a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y Pandemig. Fe wnaeth y Panel gyfarfod ym Mawrth, Ebrill, Mai a Gorffennaf 2021 gyda chyfarfodydd wedi eu trefnu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Gellir adrodd fod y Panel Sgriwtini yn parhau i dderbyn tystiolaeth o welliannau a datblygiadau yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sydd yn rhoi sicrwydd o ran y cynydd hyd yma. Mae crynodeb o fewnbwn y Panel Gwella dros y 6 mis diwethaf yn atodol:

**Adroddiad Cynydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cyfeirio at 4 cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (a gynhaliwyd ar 23/03/21, 20/04/21, 25/05/21 a 20/07/21) ac o ganlyniad yn cwmpasu'r cyfnod **Mawrth → Gorffennaf, 2021.**

1. **Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith gan gynnwys Ymweliadau Laming**
   - Adolygiad pellach o flaen raglen waith y Panel er mwyn sicrhau fod ffocws ar welliannau/datblygiadau allweddol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
   - Ymweliadau Laming - mae rhaglen ddiwygiedig wedi ei rhoi ar waith dros y 6 mis diwethaf, gydag Ymweliadau yn cael eu cynnal yn rhithiol. Mae'r Ymweliadau Laming wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol → Tîm Maethu, Adnodd Iechyd Meddwl Cymunedol (Heddfan), Cydlynwyr Ardal Lleol (Plant ac Oedolion), Timau Adnoddau Cymunedol, Cartrefi Clyd Môn.

2. **Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19**
   Derbyniodd y Panel gyflwyniad cynhwysfawr ar ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19. Nodwyd fod y dadansoddiadau SWOT wedi eu cynnal yn rheolaidd er mwyn asesu beth sydd wedi gweithio yn dda a beth sydd heb weithio fel rhan o broses rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Pandemig.

3. **Timau Adnoddau Cymunedol**
   Rhoddwyd diweddariad ym mis Mawrth ynghylch gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol a fydd yn sail i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol o wasanaethau di-dor i ddefnyddwyr mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd fod Gwasanaethau Oedolion wedi symud at fodel 3 ardal o weithio – Gogledd (Amlwch), De Orllewin (Ysbyty Penrhos Stanley) a De Ddwyrain (Plas Mona, Llanfairpwll). Mae cyfarfodydd y Timau Adnoddau

Cymunedol nawr yn cael eu cynnal yn wythnosol i drafod / cydweithio ar achosion cymhleth.

**4. Gweithio mewn Partneriaeth – y berthynas rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Trafododd Pennaeth y Gwasanaethau Tai'r berthynas gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel sail i gefnogi'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolion bregus. Nodwyd Cartrefi Clyd Môn, Tai Gofal Ychwanegol ac addasiadau tai fel esiamplau o'r gweithio mewn partneriaeth effeithiol rhwng y ddau wasanaeth.

**5. Gwasanaeth Ieuenctid ac Adroddiad Estyn**
Ym mis Ebrill, adolygodd y Panel gyflwyniad ar gyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid o ran cefnogi plant a phobl ifanc bregus yn lleol. Cyfeiriwyd hefyd at ganfyddiadau'r arolwg Estyn diweddar. Nodwyd fod rheolaeth y Gwasanaeth Ieuenctid bellach wedi ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond yn parhau i weithio'n agos â'r Gwasanaeth Addysg, gan weithio'n bennaf mewn ysgolion ynghyd â chymunedau lleol. Mae gweithwyr y Gwasanaeth Ieuenctid wedi chwarae rôl allweddol mewn danfon pecynnau bwyd i blant pan oedd y Pandemig ar ei anterth a oedd hefyd yn rhoi cyfle i ymgysylltu â rhieni / gofalwyr. Nodwyd fod canlyniad yr adroddiad Estyn yn bositif ac fe gyfeiriwyd yn benodol at waith effeithiol y Gwasanaeth Ieuenctid mewn cefnogi unigolion bregus yn ystod y Pandemig.

**6. Hunanwerthusiad y Panel**
Ym mis Ebrill, cwblhaodd y Panel hunanwerthusiad er mwyn mesur effeithiolrwydd y gwaith a daethpwyd i'r casgliad fod y Panel yn parhau i gael effaith bositif a'i fod yn ychwanegu gwerth i lywodraethiant y sefydliad.

**7. Adolygiad Diagnostig Annibynnol - Gwasanaethau Oedolion**
Derbyniodd y Panel gyflwyniad ym mis Mai ar ganfyddiadau adolygiad diagnostig diweddar o'r gwasanaethau oedolion. Nodwyd manylion y meysydd sydd angen datblygiad pellach, a fydd yn sail i raglen datblygiad gwasanaeth wrth symud ymlaen.

**8. Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ym mis Mai am archwiliad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd wedi'i drefnu. Nodwyd y byddai'r ymweliad yn cael ei gynnal ar yr wythnos yn dechrau 14eg o Fehefin, 2021 am wythnos gyda'r holl waith archwilio yn cael ei wneud yn rhithiol. Bydd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflawni eu gwaith statudol yn ystod y Pandemig
- Adolygu pa mor dda y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i helpu oedolion, plant a'u gofalwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

**9. Tîm Teuluoedd Gwydn / IFSS**
Derbyniodd y Panel gyflwyniad ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn / IFSS sydd bellach yn integredig, i gefnogi teuluoedd bregus. Nodwyd mai prif amcan y gwasanaeth yw ymgysylltu gyda theuluoedd gyda golwg ar osgoi plant yn dod i mewn i ofal yr awdurdod lleol. Cyfeiriwyd at ganlyniadau positif i deuluoedd unigol sydd hefyd wedi golygu bod y Gwasanaeth wedi medru osgoi costau.

**10. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol: 2020/21**
Ym mis Mehefin, debyniodd y Panel gyflwyniad ar Adroddiad Blynyddol ar Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21. Nodwyd fod 50 o sylwadau negyddol / pryderon a 200 o sylwadau positif wedi eu derbyn yn ystod 2020/21 a bod yr Adroddiad Blynyddol yn

| |
|---|
| un mwy positif na'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae cyfarfodydd pellach o'r Panel wedi eu trefnu fel â ganlyn:<br>• 19 Hydref, 2021<br>• 30 Tachwedd, 2021<br>• 25 Ionawr, 2022<br>• 15 Chwefror, 2022. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | **Cytuno** |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Fel uchod |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Fel uchod |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Cytuno |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| N/A. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| **N/A** |

This page is intentionally left blank